Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2010-2011



Hydref 2009

## RHAGAIR

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella ansawdd bywyd pobl ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd dan yr anfantais fwyaf. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cymryd sawl cam i weithredu'r ymrwymiadau yn rhaglen lywodraethu *Cymru'n Un* – rhaglen y mae egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynwysoldeb yn ganolog iddi.

Drwy lynu wrth ein hegwyddorion a chydweithio â'n partneriaid mewn ysbryd o gyfrifoldeb cyffredin, rydym wedi ceisio helpu Cymru i ddod drwy'r dirywiad economaidd byd-eang. Drwy ein dull o weithredu drwy bartneriaeth gymdeithasol sy'n waelodol i'r Uwchgynadleddau Economaidd, mae'r camau rydym wedi'u cymryd wedi helpu unigolion, busnesau a chymunedau ledled Cymru ac maent yn parhau i'w helpu. Mae mentrau sy'n unigryw i Gymru, fel ReAct a ProAct, wedi helpu i ddiogelu swyddi a thrwy hynny wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Mae'r dirywiad byd-eang yn creu heriau o ran cyllid cyhoeddus. Fel rwyf wedi'i ddynodi'n gyson, mae'n glir na allwn, yn y blynyddoedd i ddod, ddisgwyl gweld y cynnydd sylweddol mewn gwariant cyhoeddus a welwyd yn y degawd diwethaf. Rwy'n benderfynol o beidio â cholli effaith y lefel buddsoddiad sylweddol uwch y bu'n bosibl inni ei wneud yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru ers 1999, ac rwy'n benderfynol y caiff y dewisiadau a wnawn yn y dyfodol eu hyrwyddo gan ein hegwyddorion a'n gwerthoedd. Byddwn yn parhau â'n dull o weithredu drwy bartneriaeth i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau posibl o'r bunt Gymreig.

Yn yr hinsawdd hon mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio ein cyllideb yn effeithiol, yn effeithlon ac yn arloesol i wella gwasanaethau cyhoeddus. Dyma'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl ledled Cymru yn dibynnu arnynt, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd dan yr anfantais fwyaf – er enghraifft gofal iechyd, addysg a hyfforddiant, trafnidiaeth, tai, gwarchod ein hamgylchedd a'n treftadaeth, adfywio a datblygu economaidd, materion gwledig a rhaglenni i gefnogi unigolion a chymunedau sy'n agored i niwed.

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2010-11 yn nodi sut, drwy fod yn driw i'n hegwyddorion, y gallwn barhau i wella'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl yn dibynnu arnynt, er gwaethaf cyllidebau tynnach yn y dyfodol. Ar y cyfan, mae ein cyllidebau refeniw adrannol yn dal i gynyddu ryw £287 miliwn rhwng 2009-10 a 2010-11. Ond mae'r cynigion yn y Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu'r gostyngiadau yn ein cyllideb gyffredinol, sy'n deillio o benderfyniadau ar lefel y DU, ac o'n penderfyniad i gyflymu buddsoddiad cyfalaf o 2010-11 i eleni a'r llynedd i helpu pobl a busnesau yng Nghymru yn ystod y dirywiad byd-eang hwn – gan roi hwb i'r economi lle y mae ei angen fwyaf.

Mae ein dull o fyw o fewn cyllidebau tynnach yn ymwneud ag effeithlonrwydd – sy'n golygu canolbwyntio ar leihau costau a sicrhau gwell gwerth am ein buddsoddiad yn hytrach na lleihau gwasanaethau. Drwy nodi diwygiadau arloesol sy'n gweddnewid a rhannu arferion da, gallwn wneud y mwyaf o'r bunt Gymreig – gan sicrhau mwy â llai.

Mae'n beth cywir bod pob adran yn cyfrannu i'r agenda hon drwy nodi dulliau o fod yn effeithlon ac arbed arian, ac adlewyrchir hyn yng nghynigion y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, drwy gymryd y penderfyniadau anodd angenrheidiol, rydym hefyd wedi gallu creu'r cyfle i ddyrannu arian yn strategol. Er enghraifft, £50 miliwn i gefnogi newidiadau strwythurol yn y gwasanaeth iechyd a chynnydd gwirioneddol yn y galw am wasanaethau iechyd yn sgil gostyngiadau mewn amseroedd aros; £34 miliwn i gefnogi gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol; tua £20 miliwn i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc; a £4 miliwn i wneud ymchwil a gwaith datblygu ychwanegol drwy gydweithio â busnesau.

Byddwn yn parhau i wneud y dewisiadau anodd angenrheidiol, gan barhau i greu cymdeithas deg ac economi gynaliadwy gref. Drwy wneud y mwyaf o'n holl adnoddau a sicrhau mwy â llai, gallwn barhau i symud ein hagenda *Cymru'n Un* yn ei blaen – gan helpu i ddiogelu a gwella'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

**Andrew Davies AC**
**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

# CYNNWYS


| | | *Tudalen* |
|---|---|---|
| 1. | **TROSOLWG** | |
| | • **Rhagarweiniad** | *1* |
| | • **Cyd-destun Gwariant Cyhoeddus** | *2* |
| | • **Cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cyllideb 2010-11** | *3-9* |
| | • **Cronfeydd a Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn** | *10* |
| | • **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | *11* |
| | • **Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol** | *11-12* |
| | • **Cronfa Buddsoddi i Arbed** | *12* |
| | • **Newidiadau strwythurol i gyllidebau** | *13* |
| 2. | **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | *14-17* |
| 3. | **CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL** | *18-22* |
| 4. | **YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH** | *23-28* |
| 5. | **PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU** | *29-34* |
| 6. | **YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI** | *35-39* |
| 7. | **MATERION GWLEDIG** | *40-42* |
| 8. | **TREFTADAETH** | *43-45* |
| 9. | **GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHERFFORMIAD** | *46-48* |
| 10. | **GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU** | *49-51* |
| | **ATODIAD 1** **Cysoni Cyllideb Bloc Cymru a Dyraniadau Adnoddau yn y Cynigion Blynyddol am y Gyllideb Ddrafft** | *52-55* |
| | **ATODIAD 2** **Rhestr Dermau** | *56-58* |


Dylech anfon unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon at:


Budget and Strategic Planning@Wales.gsi.gov.uk

# 1 TROSOLWG

## Rhagarweiniad

**1.1** Pennwyd cyllidebau dangosol ar gyfer 2010-11 gan gyllidebau blaenorol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn fwyaf diweddar, roedd y gyllideb y cytunwyd arni ym mis Rhagfyr 2008 yn cynnwys cynlluniau gwario dangosol ar gyfer 2010-11, ar sail gwybodaeth a oedd ar gael yr adeg honno am gyllideb ddisgwyliedig Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r gyllideb ddrafft hon yn adeiladu ar gynlluniau gwario blaenorol, gan eu mireinio i adlewyrchu penderfyniadau cyllidol Llywodraeth y DU a'r dirywiad economaidd byd-eang sy'n datblygu. Mae agenda *Cymru'n Un* yn parhau i lunio'r cyd-destun strategol, sy'n llywio dull gweithredu Llywodraeth y Cynulliad.

**1.2** Pennwyd cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) Cymru, hy prif gyllideb bloc Llywodraeth y Cynulliad, gan Gyllideb y DU ym mis Ebrill 2009. Roedd y Gyllideb honno yn ailystyried y cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer gwariant y sector cyhoeddus yn 2010-11. Er bod cynnydd o ryw £287 miliwn yng nghyllideb refeniw Llywodraeth y Cynulliad o 2009-10, mae gostyngiadau yn y cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd ar gyfer 2010-11 wedi codi o benderfyniadau Cyllideb y DU. O ran cyfalaf, mae cyllidebau adrannau hefyd yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i ddwyn ymlaen brosiectau cyfalaf i 2008-09 a 2009-10 i roi hwb i economi Cymru.

**1.3** Cynlluniau ar gyfer blwyddyn yn unig sydd yn y gyllideb ddrafft hon. 2010-11 yw'r flwyddyn olaf yng nghyfnod Adolygu Gwariant presennol y DU, ac felly y flwyddyn olaf y mae gyda ni ddyraniad cadarn ar ei chyfer. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw flaenddyraniadau dangosol, ond yn hytrach gyfres o elfennau nad oes sicrwydd yn eu cylch. Rydym mewn amgylchiadau unigryw. Rydym wedi gweld dirywiad byd-eang ac er bod rhai arwyddion o adferiad, mae'n anodd iawn rhagweld pryd y gwelwn adferiad llawn, gyda chynnydd o ran cyllid cyhoeddus yn sicr yn araf. Mae'r dirywiad yn effeithio ar angen Llywodraeth y DU i wario, ond hefyd ar ei gallu i godi refeniw. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyllideb Cymru, ac mae'r ansicrwydd economaidd, ynghyd â'r dyfalu am wariant yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol, yn ei gwneud yn anodd darogan lefelau cyllid yn gywir. Rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer amser cynyddol heriol, ond tan i lawer o'r ansicrwydd gael ei ddatrys, ni fyddai'n synhwyrol cyhoeddi cynlluniau gwariant y tu hwnt i 2010-11.

## Cyd-destun Gwariant Cyhoeddus

**1.4** Mae lefelau gwariant cyhoeddus wedi cynyddu'n gyflym yng Nghymru ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999. Er gwaethaf degawd o fuddsoddi sylweddol, rydym wedi cynnal ffocws ar sicrhau gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ac rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer cyfradd dwf is. Mae'r paratoadau hynny yn talu ffordd. Mae setliad cyffredinol y gyllideb ar gyfer 2010-11 yn is na'r lefel a bennwyd yn Adolygiad Cynhwysfawr 2007 o Wariant, ac mae'n edrych yn debyg mai dyma'r tro cyntaf mewn cyfres o setliadau cynyddol dynn. Fodd bynnag, bydd y cynlluniau a nodir yn y gyllideb hon yn parhau i'w gwneud yn bosibl inni gyflawni ein hagenda heriol o ran y gwasanaeth cyhoeddus.

**1.5** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf. Mae ein ffocws ar wella gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn ganolog i gyfres o gyllidebau. Yn 2004, cyhoeddwyd Creu'r Cysylltiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chyfres o gamau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Un agwedd ar yr agenda honno oedd sicrhau arbedion rheolaidd o £600 miliwn erbyn 2010, ac rydym yn gwneud cynnydd da i gyrraedd y targed hwn erbyn 31 Mawrth 2010.

**1.6** Ffocws yr agenda effeithlonrwydd oedd rhyddhau adnoddau i gynyddu ein buddsoddiad yng ngwasanaethau'r rheng flaen. O'r £500 miliwn o arbedion a nodwyd hyd yn hyn, roedd 80 y cant yn rhyddhau arian, sy'n golygu bod cynnydd amlwg wedi bod yn yr adnoddau sydd ar gael i'n partneriaid cyflenwi. Mae arbedion wedi'u sicrhau yn y categorïau canlynol:

- ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus;
- gwneud defnydd gwell o amser a sgiliau staff;
- bod yn gallach wrth gaffael; a
- symleiddio swyddogaethau cymorth.

**1.7** Cyhoeddwyd *Creu'r Cysylltiadau* ar adeg pan mai cynnydd cyflym mewn gwariant cyhoeddus oedd yn arferol. Yn erbyn y cefndir hwnnw, roedd agenda effeithlonrwydd yn canolbwyntio ar sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiadau ychwanegol. Ers cyhoeddi *Creu'r Cysylltiadau* mae'r cyd-destun strategol wedi newid; yn benodol mae'r dirywiad byd-eang wedi effeithio ar gynlluniau gwario'r sector cyhoeddus. Nid sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad neu ei gynyddu yw ffocws ein hagenda effeithlonrwydd mwyach. Y nod yw cynnal a gwella gwasanaethau â llai o adnodd.

**1.8** Diogelu a gwella gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol tynn sydd wrth wraidd y gyllideb hon. Drwy'r gronfa a gyhoeddwyd yn flaenorol,

*Buddsoddi i Arbed*, ac agenda ehangach *Creu'r Cysylltiadau*, byddwn yn cefnogi ein partneriaid wrth iddynt wneud yr arbedion angenrheidiol. Ar yr un pryd, drwy ddefnyddio adnoddau yn effeithiol, bu'n bosibl inni gyhoeddi dyraniadau strategol newydd yn y Gyllideb Ddrafft hon.

**1.9** Cynnyrch y systemau cyllidebol presennol yw cyllideb bloc Cymru 2010-11. Yn benodol, caiff newidiadau a wneir i gyllideb TGA Cymru eu gwneud drwy fformwla Barnett ar hyn o bryd, a adolygwyd gan Gomisiwn annibynnol 'Holtham' a sefydlwyd o dan gytundeb *Cymru'n Un*.

**Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru**

Cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, a elwir hefyd yn Gomisiwn 'Holtham', ei adroddiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2009.

Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith fformwla Barnett ar Gymru ac yn ystyried y ddadl dros newid. Mae'n cyflwyno achos cryf dros ddiwygio ein trefniadau cyllido cyfredol a thros gryfhau'r strwythurau y mae datganoli yn seiliedig arnynt. Mae'r adroddiad yn dadlau mai anghenion, mewn egwyddor, ddylai fod yn penderfynu ar y cyllid sydd ar gael yng Nghymru, ac yng nghenhedloedd eraill y DU. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod cyflwyno fformwla sy'n seiliedig ar anghenion yn debygol o fod yn gymhleth ac y bydd yn cymryd amser. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu ac yn cefnogi casgliadau ac argymhellion y Comisiwn ac yn trafod y rhain gyda Llywodraeth y DU.

Mae'r Comisiwn wedi dechrau gweithio ar ail ran ei gylch gwaith, gan ymchwilio i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca i Gymru. Ar ôl degawd o ddatganoli, mae'n beth cywir bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yr achos dros ddatganoli pwerau ariannol i Gymru.

## Cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cyllideb 2010-11

**1.10** Cyflwynir cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y gyllideb yn erbyn y cefndir ariannol anodd a nodwyd eisoes. Y gwariant a ddatganolwyd yng Nghymru ar gyfer 2010-11 yw TGA Cymru o £15.7 biliwn a Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £0.7 biliwn. Yr elfen fwyaf o TGA Cymru yw'r arian a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd, yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2010-11, yn cynnwys £13.7 biliwn o refeniw ac £1.4 biliwn o gyfalaf. Amlinellir y dyraniadau adrannol isod, a thrafodir y GRF ac elfennau eraill TGA Cymru yn nes ymlaen.

## Cyllidebau Refeniw TGA

**1.11** Ac eithrio trosglwyddiadau cyllidebol rhwng adrannau, mae Tabl 1.1 yn nodi canran y newid yng nghyllidebau refeniw TGA o 2009-10. Bydd y cyllidebau refeniw hyn, sy'n sail i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, bellach yn cynyddu ryw £287 miliwn neu 2.1 y cant rhwng 2009-10 a 2010-11. Bydd pob un o adrannau polisi Llywodraeth y Cynulliad yn gweld cynnydd o rhwng 0.9 y cant a 5.4 y cant o gymharu â 2009-10, a hynny ar ôl nodi dulliau eraill o fod yn effeithlon ac arbed arian o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol ar gyfer 2010-11, gwerth 1.6 y cant, fel cam cyntaf tuag at effeithlonrwydd tymor hwy.

**1.12** Mae'r cynnydd hwn yn sylweddol uwch na'r newidiadau i gyllidebau corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad ei hun – mae Prif Grŵp Gwariant y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynyddu 0.3 y cant, a'r PGG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn gostwng o tua 1 y cant. Mae penderfyniadau gwario yn y meysydd hyn yn adlewyrchu rôl arwain Llywodraeth y Cynulliad o ran sicrhau'r elw mwyaf posibl o fuddsoddiad llai yn ei meysydd busnes ei hun.

### Tabl 1.1 – % newid yng nghyllidebau TGA Refeniw ers 2009-10

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (PGG)**<br><br>**Cyllidebau TGA Refeniw** | **% newid rhwng 2009-10 a 2010-11** |
|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 2.6 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 2.2 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0.9 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 0.9 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 5.4 |
| Materion Gwledig | 1.2 |
| Treftadaeth | 1.5 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | -1.0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0.3 |
| **Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | **2.1** |

*Nodiadau: Mae'r ffigurau ar gyfer y newid mewn canran yn cymharu ffigurau Cyllideb Atodol mis Hydref 2009 ar gyfer 2009-10, y mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo, â chynlluniau terfynol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2010-11 ac eithrio trosglwyddiadau rhwng adrannau.*

**1.13** Bydd y Grant Cymorth Refeniw – y prif floc cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol – yn cynyddu tua 2.1 y cant, yn unol â'r cynnydd cyffredinol yn y cyllidebau adrannol. Mae'r lefel gyllid hon ar gyfer awdurdodau lleol yn cydnabod y pwysau sydd ar lywodraeth leol mewn cyfnodau economaidd anodd. Mae'n ategu ein hymrwymiad cyffredin i gydweithio i gynnig gwasanaethau cyhoeddus gwych sy'n rhoi'r lle canolog i'r dinesydd ac i weithio tuag at fframwaith newydd ar gyfer mesur perfformiad ac atebolrwydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**1.14** Yn sgil cymryd y penderfyniadau caled i ddod o hyd i ddulliau o fod yn effeithlon ac arbed arian, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gallu gwneud dyraniadau strategol i feysydd blaenoriaeth – yn benodol:

- £50 miliwn i gefnogi newidiadau strwythurol yn y gwasanaeth iechyd a chynnydd gwirioneddol yn y galw am wasanaethau iechyd yn sgil gostyngiadau mewn amseroedd aros;
- £34 miliwn i faes Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, gan gydnabod yn yr un ffordd yr angen i gefnogi newidiadau strwythurol yng ngwasanaethau awdurdodau lleol, yn unol â gwaith cydweithredol yr Is-Grŵp Gwariant yn ystod y misoedd diwethaf;
- £20 miliwn i faes Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc;
- £6 miliwn i faes yr Economi a Thrafnidiaeth i ategu cost Swyddogion Traffig a gwneud gwaith ymchwil a datblygu mewn cydweithrediad â busnesau;
- £3 miliwn i faes yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i gefnogi digartrefedd, effeithlonrwydd ynni, rheoli risg llifogydd a chynlluniau datblygu lleol;
- £3 miliwn i faes Treftadaeth i sicrhau bod ei Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa well i ddarparu gwasanaethau rheng flaen, a meithrin gwaith partneriaeth agosach;
- £1.6 miliwn i faes Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i gyllido'r hyn sy'n olynu'r arolwg cenedlaethol *Byw yng Nghymru*.

## Cyllidebau Cyfalaf TGA

**1.15** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dwyn ymlaen gyllidebau cyfalaf adrannol – sy'n cyllido buddsoddiadau mewn seilwaith newydd fel ysbytai, ysgolion a phrifysgolion, rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd, a thai cymdeithasol – o 2010-11 i 2008-09 a 2009-10 er mwyn rhoi hwb i'r economi. Drwy gyflymu prosiectau cyfalaf bu'n bosibl chwistrellu arian ychwanegol i mewn i economi Cymru, gan helpu'r sector adeiladu yn benodol a busnesau ac unigolion yn fwy cyffredinol ar yr adeg y mae ei angen fwyaf.

**1.16** Fodd bynnag, mae dwyn ymlaen tua £120 miliwn o wariant cyfalaf o 2010-11 i'r blynyddoedd cynharach yn golygu bod dyraniadau adrannol yn is nag a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 2010-11. Mewn rhai achosion mae cyllidebau cyfalaf adrannol yn is na'u cyllidebau ar gyfer 2009-10, sydd nawr wedi'u cynyddu. Yn ogystal, mae penderfyniadau ariannol y DU wedi golygu gostyngiad o tua £75 miliwn yn ein cyllideb TGA cyfalaf flynyddol, sydd wedi'i rhannu ar draws cyllidebau cyfalaf adrannol. Yn ogystal â dyraniadau adrannol, mae'r gyllideb yn darparu hefyd gronfeydd cyfalaf ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

**1.17** Bydd cymariaethau terfynol rhwng gwariant cyfalaf 2009-10 a 2010-11 yn dibynnu ar benderfyniadau ynghylch tynnu i lawr hyblygrwydd diwedd blwyddyn a thynnu ymlaen gyllidebau cyfalaf.

## Tabl 1.2 - Dyraniad Cyllideb TGA Refeniw Llywodraeth y Cynulliad

| Prif Grwpiau Gwariant (PGG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 |
| Cyllidebau TGA Refeniw | | Cynlluniau Dangosol | Dulliau Arfaethedig o fod yn Effeithlon ac Arbed Arian | Dyraniadau Strategol a Newidiadau Eraill | Cynlluniau Terfynol | Cynnydd/ gostyngiad ers 2009-10 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,651,626 | 5,837,846 | -91,613 | 51,335 | 5,797,568 | 145,942 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 4,327,063 | 4,453,782 | -71,260 | 41,548 | 4,424,070 | 97,007 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 718,106 | 725,670 | -7,070 | 4,358 | 722,958 | 4,852 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 1,677,816 | 1,694,303 | -26,144 | 24,733 | 1,692,892 | 15,076 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 350,233 | 371,995 | -5,901 | 3,000 | 369,094 | 18,861 |
| Materion Gwledig | 134,835 | 138,454 | -2,047 | - | 136,407 | 1,572 |
| Treftadaeth | 145,166 | 146,507 | -2,136 | 3,000 | 147,371 | 2,205 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 59,340 | 59,706 | -949 | -4,053 | 54,704 | -4,636 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 355,277 | 360,248 | -5,495 | 6,412 | 361,165 | 5,888 |
| **Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | **13,419,462** | **13,788,511** | **-212,615** | **130,333** | **13,706,229** | **286,767** |

## Tabl 1.3 – Dyraniad Cyllideb TGA Cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad

| Prif Grwpiau Gwariant (PGG)<br><br>Cyllidebau TGA Cyfalaf | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 |
| | | Cynlluniau Dangosol | Y gyllideb a ddygwyd ymlaen i flynyddoedd cynharach | Newidiadau Eraill | Cynlluniau Terfynol | Cynnydd/ gostyngiad ers 2009-10 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 412,414 | 340,114 | -29,200 | -14,302 | 296,612 | -115,802 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 76,431 | 82,031 | - | -3,773 | 78,258 | 1,827 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 491,605 | 468,495 | -16,700 | -20,783 | 431,012 | -60,593 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 264,841 | 225,711 | -34,000 | -8,819 | 182,892 | -81,949 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 450,285 | 405,365 | -40,000 | -16,807 | 348,558 | -101,727 |
| Materion Gwledig | 17,536 | 17,536 | - | -807 | 16,729 | -807 |
| Treftadaeth | 17,297 | 15,851 | - | -729 | 15,122 | -2,175 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 445 | 445 | - | -20 | 425 | -20 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 40,033 | 45,033 | - | -9,000 | 36,033 | -4,000 |
| **Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | **1,770,887** | **1,600,581** | **-119,900** | **-75,040** | **1,405,641** | **-365,246** |

*Nodiadau i dablau 1.2 ac 1.3:*

1. *Mae tablau 1.2 ac 1.3 yn dangos cyllidebau ar sail weinyddol. Mae'r ffigurau yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb, sy'n awdurdodi Gweinidogion Cymru i wario hyd at lefel benodol at ddiben penodedig, yn seiliedig ar adnodd. Mae Atodiad 1 yn esbonio'r gwahaniaethau hyn yn fanylach ac yn cysoni cyllidebau gweinyddol â chyllidebau adnodd.*
2. *Mae'r ffigurau ar gyfer 2009-10 yn dod o Gyllideb Atodol mis Hydref 2009. Mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r ffigurau hyn. Mae ffigurau 2009-10, felly, yn adlewyrchu cyllid canlyniadol ychwanegol gan Lywodraeth y DU, cyflymu ymhlith prosiectau cyfalaf a'r bwriad i dynnu i lawr Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.*
3. *Daw ffigurau'r Cynlluniau Dangosol ar gyfer 2010-11 o Gyllideb Derfynol 2009-10 Rhagfyr 2008.*

## Cyllideb TGA Cymru

**1.18** Mae Tabl 1.4 yn dangos elfennau cyllideb TGA Cymru 2010-11, sy'n cynnwys cyllideb TGA Llywodraeth y Cynulliad a chyllidebau dangosol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n dangos hefyd gronfeydd refeniw dangosol ar gyfer 2010-11, a'r cronfeydd cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Mae TGA Cymru hefyd yn cynnwys Costau Uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Tabl 1.4 – Dyraniad Cyllideb TGA Cymru

| Cyllideb TGA CYMRU | £000oedd 2009-10 | £000oedd 2010-11 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant o fewn cyllideb TGA Cymru[1]** | **15,379,212** | **15,737,734** |
| Adrannau Llywodraeth y Cynulliad | 15,190,349 | 15,111,870 |
| Comisiwn y Cynulliad[2] | 49,701 | 48,973 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru[2] | 5,047 | 5,047 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[2] | 3,279 | 3,279 |
| Costau Uniongyrchol | 653 | 675 |
| Cronfeydd Refeniw: adnoddau sydd bron yn arian parod | 44,086 | 157,130 |
| adnoddau nad ydynt yn arian parod | 36,588 | 69,239 |
| Cronfeydd Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol | 49,509 | 341,521 |

*Nodiadau i Dabl 1.4:*
*1. Mae Cyfanswm y Gwariant o fewn cyllideb TGA Cymru ar gyfer 2010-11 yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol, dulliau o fod yn effeithlon ac arbed arian a dwyn ymlaen brosiectau cyfalaf. Mae Cyfanswm y Gwariant yng nghyllideb TGA Cymru ar gyfer 2009-10 yn adlewyrchu cyllid canlyniadol ychwanegol gan Lywodraeth y DU, cyflymu ymhlith prosiectau cyfalaf a'r bwriad i dynnu i lawr Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.*
*2. Mae cyllideb 2010-11 y Comisiwn wedi'i chymryd o'i Amcangyfrifon, a osodwyd ar 22 Medi 2009.*
*3. Cyllidebau dangosol 2010-11 o Gyllideb Derfynol 2009-10.*
*4. Mae'r ffigurau ar gyfer 2009-10 yn dod o Gyllideb Atodol mis Hydref 2009. Mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r ffigurau hyn.*

## Cronfeydd a Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

**1.19** Yn gyson â'r egwyddor a ddilynir, caiff cronfeydd refeniw wrth gefn sydd bron yn arian parod, o tua 1 y cant o gyllideb TGA Cymru, eu cadw i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod i ymateb i'r digwyddiadau sy'n codi.

**1.20** Mae rheoli ariannol da yn golygu cadw gwariant o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, ac eto defnyddio cymaint â phosibl, gan sicrhau bod y gwariant yn sicrhau'r budd mwyaf posibl. Yn anochel bydd y dull gweithredu hwn yn golygu bod cyfran fach o'r adnoddau sydd ar gael heb eu gwario bob blwyddyn. Mae record wych gan Lywodraeth y Cynulliad o sicrhau lefel gwariant cyson o bron i 99 y cant ar gyfer TGA sydd bron yn arian parod – lefel sy'n well na'r rhan fwyaf o Adrannau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

**1.21** Mae Llywodraeth y Cynulliad, yn gyffredin â gweinyddiaethau datganoledig eraill ac Adrannau Whitehall, yn gallu cario drosodd adnoddau heb eu gwario rhwng blynyddoedd ariannol o dan drefniadau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Roedd *Papur Gwyn Alldro Gwariant Cyhoeddus* Llywodraeth y DU yn cynnwys manylion lefel ein ffigurau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Cyhoeddwyd y papur ym mis Gorffennaf 2009. Y stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn cronnol sy'n perthyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'u nodi yn y papur hwnnw, gan ymgorffori stociau sy'n weddill ers blynyddoedd blaenorol ac alldro dros dro ar gyfer 2008-09, yw £269 miliwn mewn adnoddau sydd bron yn arian parod a £230 miliwn mewn cyfalaf. Y stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn o adnoddau nad ydynt yn arian parod yw £470 miliwn.

**1.22** Wrth benderfynu ar gyfanswm lefel yr Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn y mae'n rhaid ei dynnu i lawr yn ystod unrhyw flwyddyn, mae'n hanfodol rhoi ystyriaeth nid dim ond i bwysau, cyfleoedd ac ymrwymiadau'r flwyddyn, ond hefyd i bwysau, cyfleoedd ac ymrwymiadau posibl. Rhagwelir y bydd cyfran sylweddol o stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn cael eu tynnu i lawr yn 2009-10, a gaiff eu gweithredu drwy Amcangyfrifon Atodol Seneddol y Gaeaf neu'r Gwanwyn a'u dyrannu i Brif Grwpiau Gwariant drwy Gynigion Cyllidebol Atodol.

**1.23** Fel y mae'r nodyn esboniadol yng Nghyllideb Atodol gyntaf 2009-10 yn ei ddynodi, mae TGA Llywodraeth y Cynulliad yn cynyddu yn 2009-10 o ganlyniad i'r cyflymu ymhlith prosiectau cyfalaf a'r bwriad i dynnu Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn i lawr. Penderfynir yn derfynol ar gyfanswm lefel yr Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a dynnir i lawr yn nes at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, gan roi ystyriaeth i bwysau, cyfleoedd ac ymrwymiadau eraill yn ystod y flwyddyn.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**1.24** Mae Tabl 1.5 yn dangos y lefelau a ragwelir o ran cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11. (Diffinnir GRF fel gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â TGA. Mae GRF, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw. I gael diffiniad llawn, gweler Atodiad 2 – y Rhestr Eirfa).

### Tabl 1.5 – Cyllideb GRF Llywodraeth y Cynulliad

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (PGG) | £000oedd | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)** | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 40,222 | 89,849 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 13,025 | 13,583 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 491,402 | 473,767 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 163,660 | 174,266 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | -72,000 | -52,000 |
| Treftadaeth | 21,754 | 21,754 |
| **Cyfanswm Cyllideb GRF Llywodraeth y Cynulliad** | **658,063** | **721,219** |

*Nodiadau i dabl 1.5:*
*1. Mae'r ffigurau ar gyfer 2009-10 yn dod o Gyllideb Atodol mis Hydref 2009. Mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r rhain.*
*2. Mae'r ffigurau ar gyfer 2010-11yn adlewyrchu'r ffigurau Gwariant a Reolir yn Flynyddol diweddaraf a roddwyd i Drysorlys EM ym mis Chwefror 2009.*

## Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol

**1.25** Sefydlu Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol yw un o brif ymrwymiadau *Cymru'n Un* ac mae'n helpu i sicrhau newid amlwg yn null Llywodraeth y Cynulliad o gynllunio a sicrhau buddsoddi cyfalaf.

**1.26** Cyhoeddwyd prosiectau'r cymal cyntaf o'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol ym mis Rhagfyr 2008, ac roedd 19 ohonynt, gyda'r Fframwaith yn buddsoddi cyfanswm o tua £350 miliwn – a daethpwyd o hyd i gymaint â hynny o arian o leiaf o ffynonellau eraill.

**1.27** Yn ystod 2009-10, mae'r Fframwaith wedi'i raglennu i wario tua £58 miliwn ar brosiectau adeiladu llafurddwys ledled Cymru.

**1.28** Mae camau pwysig wedi'u cymryd eisoes i weithredu cymal cyntaf prosiectau'r Fframwaith. Er enghraifft, mae'r adeiladu wedi hen ddechrau ar yr Ysgol Uwchradd a'r Campws Cymunedol ym Metws, Casnewydd, ac mae gwaith safle eisoes wedi dechrau ar Brosiect Gweledigaeth Iechyd Abertawe yn Ysbyty Treforys.

**1.29** Mae tua £125 miliwn eisoes wedi'i ryddhau ar gyfer ail gymal prosiectau'r Fframwaith. Mae'r dull o weithredu'r ail gymal wedi'i gryfhau er mwyn ei gwneud yn bosibl ymgysylltu'n gynharach â phartneriaid allanol ar y gwaith o ddatblygu prosiectau posibl, gan weithio yng nghyd-destun y Cynllun Gofodol. Caiff cyhoeddiad ei wneud yn nes ymlaen eleni am brosiectau a fydd yn cael cefnogaeth yr ail gymal.

## Y Gronfa Buddsoddi i Arbed

**1.30** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu Cronfa Buddsoddi i Arbed newydd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus wrth ymateb i'r her o ddarparu gwasanaethau o ansawdd a chanlyniadau i ddinasyddion yn ystod cyfnod o dynhau cyllidebau. Bydd hyn yn helpu sefydliadau rheng flaen yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon; ac mae'n gwella ein Cronfa Wella *Creu'r Cysylltiadau* sydd wedi bod yn rhoi hwb i brosiectau effeithlonrwydd cydweithredol ers 2006.

**1.31** Drwy'r Gronfa, caiff hyd at £60 miliwn ei ryddhau, dros ddwy flynedd i ddechrau, 2009-10 a 2010-11. Bydd y Gronfa ar gael, ar sail buddsoddiad, i gyrff gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad, i gyfrannu tuag at gostau refeniw prosiectau newid a fydd yn sicrhau gwelliannau mesuradwy o ran effeithlonrwydd. Rydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r cyllid ochr yn ochr â chronfa'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol lle bo'n briodol.

**1.32** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol i hybu'r gwaith o ddatblygu cynigion uchelgeisiol, arloesol a fydd yn ailystyried dulliau gweithredu, yn symleiddio prosesau, yn cael gwared â biwrocratiaeth ddiangen ac yn datblygu'r dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau sydd wedi bod yn sylfaen gyson i'n polisi gwasanaeth cyhoeddus.

**1.33** Derbyniwyd dros 100 o ddatganiadau o ddiddordeb ac maent wedi'u gosod yn nhrefn blaenoriaeth. Caiff cyhoeddiad ei wneud yn ystod yr

wythnosau i ddod. Mae ail gylch wedi'i gynllunio i ddechrau ym mis Tachwedd.

## Newidiadau strwythurol i gyllidebau

**1.34** Yn ystod blwyddyn ariannol 2009-2010, mae Llywodraeth y Cynulliad yn y broses o gyflwyno system gynllunio ac adrodd newydd. Nod y system newydd yw cysylltu mewn ffordd gliriach gamau penodol a chanlyniadau i lefel uchel i helpu Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau gwasanaethau gwell i bobl Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae cyllidebau adrannol yn cael eu hailstrwythuro, ac mae rhai, felly, yn cael eu cyflwyno yn y Gyllideb Ddrafft hon ar fformat gwahanol i flynyddoedd blaenorol. Mae nodyn esboniadol technegol, a gyhoeddwyd ar wahân, yn cysoni strwythurau newydd a'r hen ar lefel Meysydd Rhaglenni Gwariant. Mae pob achos o ailstrwythuro yn digwydd o fewn Prif Grŵp Gwariant ac nid yw'n effeithio ar ddyraniadau cyffredinol y Prif Grŵp Gwariant.

# 2 IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Mae Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC) ac Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd. Mae'r AIGC yn rheoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn helpu i'w darparu, yn hyrwyddo gwelliannau ym maes darparu gwasanaethau ac yn pennu polisïau, strategaethau a deddfwriaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi arian i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a chyrff iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Amcanion yr Adran yw gweithredu ymrwymiadau *Cymru'n Un* yn ogystal â *Cynllun Oes*, sef y strategaeth deng mlynedd ar gyfer y GIG, a *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, sef y strategaeth deng mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd yn arwain ym maes polisi iechyd y cyhoedd, ymchwil a datblygu a chyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol.**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £145.9 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae’r newidiadau yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2010-11 yn adlewyrchu’n benodol y ffaith bod gwariant cyfalaf wedi'i ddwyn ymlaen o 2010-11 i flynyddoedd ariannol cynharach er mwyn rhoi hwb i'r economi.

O'i chymharu â'r cynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi gostwng £40.3 miliwn i £5.8 biliwn. Mae hyn yn adlewyrchu cynilion o £91.6 miliwn, a gyflawnwyd trwy fwy o arbedion (1.6 y cant).

Mae'r gyllideb refeniw gyffredinol hefyd yn cynnwys dyraniadau ychwanegol o £50.0 miliwn i helpu i newid strwythur y gwasanaeth iechyd, a chynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i ostyngiadau yn yr amseroedd aros a £4.0 miliwn ar gyfer blaenoriaethau sy'n codi o'r dirywiad economaidd.

O'i chymharu â'r cynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi gostwng £43.5 miliwn i £296.6 miliwn, sy'n adlewyrchu:

- gostyngiad o £14.3 miliwn o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid; ac
- yn enwedig, y ffaith bod gwariant cyfalaf wedi'i ddwyn ymlaen o 2010-11 i flynyddoedd ariannol cynharach.

## Meysydd Rhaglen Wariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Dyraniadau'r GIG

Dyma Faes mwyaf y Rhaglenni Gwariant yn y Prif Grŵp Gwariant o bell ffordd, gyda chyllideb refeniw flynyddol o fwy na £5 biliwn. Mae'r prif gyllid ar gyfer gofal y GIG (gwasanaethau ysbytai) yn dod o'r Maes hwn, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwnnw yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae cyllid ar gyfer gofal sylfaenol (Meddygon Teulu, deintyddion a fferyllwyr) hefyd wedi'i gynnwys yn y Maes hwn.

### Datblygu'r Gweithlu

Ariennir rhaglenni addysg a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o'r Maes hwn, sydd hefyd yn helpu Cyngor Gofal Cymru.

### Gwybodaeth

Telir am y gwaith o gasglu a chofnodi gwybodaeth a data ar draws y GIG o'r Maes hwn.

### Ansawdd a Diogelwch y Claf

Ariennir ymchwil a datblygu o'r Maes hwn, yn ogystal â mentrau i wella cyfraniad a phrofiad y claf.

### Gofal Sylfaenol

Mae'r Maes hwn yn cynnwys arian ar gyfer nifer o fentrau gofal sylfaenol eraill a gynhelir yn ganolog.

### Iechyd Meddwl

Mae'r Maes hwn yn cynnwys arian a gedwir yn ganolog ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae arian ar gyfer iechyd meddwl craidd yn mynd i'r GIG fel dyraniad sydd wedi'i neilltuo drwy lythyr Dyrannu Refeniw'r Bwrdd Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru.

## Clefydau Cronig

Mae'r Maes hwn yn cynnwys arian ar gyfer tri Rhwydwaith y Galon yn ogystal ag arian ar gyfer rheoli clefydau cronig.

## Canser

Mae'r Maes hwn yn cynnwys arian ar gyfer y tri Rhwydwaith Canser yn ogystal ag arian ar gyfer gofal lliniarol i'r sector hosbisau gwirfoddol.

## Gofal Iechyd Arall

Mae'r Maes hwn yn cynnwys arian ar gyfer cyfraniad Cymru at Awdurdod Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o ran trawsblannu organau a meinwe.

## Mynediad Gwell

Mae'r Maes hwn yn ariannu costau rheoli a chefnogi rhaglen amseroedd aros y Llywodraeth.

## Atal

Ariennir adnoddau Iechyd y Cyhoedd, gan gynnwys Her Iechyd Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chanolfan Iechyd Cymru, o'r Maes hwn. Mae hefyd yn helpu ystod o weithgareddau iechyd y cyhoedd a hybu iechyd, gan gynnwys rhaglenni brechu, rheoli tybaco a maetheg mewn ysgolion, yn ogystal â gwasanaethau microbioleg.

## Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Maes hwn yn ariannu gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

## Gwasanaethau Pobl Hŷn

Arian i sicrhau bod y Strategaeth Pobl Hŷn yn cael ei gweithredu'n effeithiol gan yr awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys rheoli swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

## Gofal Cymdeithasol Arall i Oedolion

Gwasanaethau cymunedol i oedolion, gwasanaethau gofal cartref a chymorth i ofalwyr trwy'r Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol.

## Dyraniadau'r GIG (Cyfalaf)

Mae'r Maes hwn yn ariannu Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan yn bennaf.

### Tabl 2.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Dyraniadau'r GIG | 5,049,508 | 403,812 | 5,453,320 | 5,184,002 | 289,510 | 5,473,512 |
| Datblygu'r Gweithlu | 299,495 | 25 | 299,520 | 302,348 | 25 | 302,373 |
| Gwybodaeth | 29,576 | - | 29,576 | 29,493 | - | 29,493 |
| Ansawdd a Diogelwch y Claf | 39,666 | - | 39,666 | 47,937 | - | 47,937 |
| Gofal Sylfaenol | 16,556 | - | 16,556 | 16,650 | - | 16,650 |
| Iechyd Meddwl | 15,781 | - | 15,781 | 15,992 | - | 15,992 |
| Clefydau Cronig | 16,996 | - | 16,996 | 9,083 | - | 9,083 |
| Canser | 6,563 | - | 6,563 | 9,976 | - | 9,976 |
| Gofal Iechyd Arall | 5,262 | - | 5,262 | 3,061 | - | 3,061 |
| Mynediad Gwell | 1,734 | - | 1,734 | 1,714 | - | 1,714 |
| Atal | 69,724 | - | 69,724 | 78,858 | - | 78,858 |
| Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Ieuenctid | 25,546 | 600 | 26,146 | 23,556 | 600 | 24,156 |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | 4,000 | - | 4,000 | 2,411 | - | 2,411 |
| Gofal Cymdeithasol Arall i Oedolion | 71,219 | 7,977 | 79,196 | 72,487 | 6,477 | 78,964 |
| **Cyfanswm TGA** | **5,651,626** | **412,414** | **6,064,040** | **5,797,568** | **296,612** | **6,094,180** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | |
| Dyraniadau'r GIG | 40,222 | - | 40,222 | 89,849 | - | 89,849 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **5,691,848** | **412,414** | **6,104,262** | **5,887,417** | **296,612** | **6,184,029** |

# 3 CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL

**Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sydd â'r prif gyfrifoldeb dros berthynas Llywodraeth y Cynulliad â llywodraeth leol, gan gynnwys y cyfeiriad strategol cyffredinol a'r amcanion, y cyllid, y perfformiad a'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hefyd yn arwain o ran perthynas Llywodraeth y Cynulliad â'r trydydd sector, y mae'n rhoi cymorth iddo, a'i nod yw diogelu a helpu pobl sy'n agored i niwed, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy. O 1 Ebrill 2009 ymlaen, bydd yr Adran hefyd yn gyfrifol am bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £97.007 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi cynyddu £1.827 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

O'i gymharu â'r cynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r dyraniad refeniw cyffredinol yn adlewyrchu arbedion o £71.260 miliwn.

Bydd y Grant Cynnal Refeniw - y prif bloc arian ar gyfer Awdurdodau Lleol - yn cynyddu 3 y cant o'i gymharu â 2009-10, a phan ystyrir trosglwyddiadau ac addasiadau eraill, y cynnydd o'i gymharu â 2009-10, os cymerir y symiau'n union â'i gilydd, fydd 2.1 y cant, yn unol â'r cynnydd cyffredinol yng nghyllidebau'r adrannau.

Rhoddir y rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng y gostyngiad cyffredinol a swm yr arbedion isod, sef dyraniadau a throsglwyddiadau ychwanegol:

- dyrannu £34 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw;
- dyrannu £4 miliwn ychwanegol ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac ar gyfer trais domestig a thrais yn erbyn menywod;
- trosglwyddo £2 miliwn o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Plant a Phobl Ifanc;
- trosglwyddo £0.665 miliwn o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu gwaith ar gynhwysiant ariannol; a

- trosglwyddo £0.883 miliwn o Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y polisi Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

O'i chymharu â'r cynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi gostwng £3.773 miliwn i £78.258 miliwn, o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid.

## Meysydd Rhaglen Wariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Cyllid Llywodraeth Leol

Mae'r Maes mawr hwn yn darparu cyllid refeniw heb ei neilltuo i'r awdurdodau lleol (gan gynnwys Awdurdodau'r Heddlu) drwy'r Grant Cynnal Refeniw a weinyddir ar sail fformiwla a rhai ffrydiau ariannu llai. Mae arbedion effeithlonrwydd o £68.815 miliwn wedi'u cydbwyso'n rhannol gan ddyraniad ychwanegol o £34 miliwn a throsglwyddiad o £1.3 miliwn o gyllideb y Gwasanaethau Tân ac Achub. Yr effaith gyffredinol yw cynnydd crynswth i'r Grant Cynnal Refeniw, sef 3 y cant, o'i gymharu â 2009-10, a phan ystyrir trosglwyddiadau ac addasiadau eraill, y cynnydd o'i gymharu â 2009-10, os cymerir y symiau'n union â'i gilydd, fydd oddeutu 2.1 y cant. Mae'r Gronfa Amddifadedd, sydd wedi cynnal lefel ei harian, sef £22 miliwn, wedi'i hychwanegu at y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2010-11, ynghyd â'r £2 miliwn a drosglwyddwyd o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer grantiau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Plant a Phobl Ifanc.

### Trethiant Llywodraeth Leol

Mae'r Maes hwn yn helpu gwasanaeth gwerthuso a phrisio llywodraeth leol, ac yn rhoi arian i nifer o wasanaethau a chyrff eraill y llywodraeth leol. Mae hefyd yn ariannu cymorth i bensiynwyr gyda'r dreth gyngor a'r cynllun i annog pobl i hawlio budd-dal y dreth gyngor. Bydd y Maes hwn yn cyflawni arbedion o £0.180 miliwn, a bydd yn arwain at ostyngiad yn yr arian sydd ar gael i Wasanaeth y Tribiwnlys Prisio Annibynnol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

### Polisi Llywodraeth Leol

Mae'r Maes hwn yn darparu cyllid ar gyfer cryfhau democratiaeth leol; gwella ac integreiddio'r broses o gynllunio strategaethau lleol a gwella'r gwasanaeth a datblygu partneriaethau effeithiol. Y brif gyllideb yn y Maes hwn yw Grant Cytundeb Gwella Llywodraeth Leol. Bydd y Maes hwn yn cyflawni arbedion o £0.602 miliwn drwy arbedion ar nifer o gyllidebau, gan gynnwys y Grant Gwella, grant Swyddfa Archwilio Cymru a chyllid Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

## Cefnogi  Cymunedau a Phobl

Mae'r rhan fwyaf o'r Maes hwn yn helpu i ddatblygu cymunedau, yn enwedig trwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sy'n ceisio gwella amodau byw a chyfleoedd pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.  Mae'r Maes yn cynnwys arian er mwyn i fentrau fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, megis allgau ariannol a thlodi plant. Mae cyllidebau eraill yn darparu cymorth ar gyfer y Trydydd Sector, gwirfoddoli, mentrau cymdeithasol a chynhwysiant digidol. Bydd y Maes hwn yn cyflawni arbedion o £0.913 miliwn drwy leihau'r arian sydd ar gael i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r Trydydd Sector.

O ran cyllidebau cyfalaf, mae'r Maes hwn yn darparu cyllid cyfalaf drwy nifer o gynlluniau grant i ystod o sefydliadau, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r Trydydd Sector ac eraill er mwyn adfywio cymunedau.  Mae dyraniadau cyfalaf yn y Maes hwn wedi'u cynnal.

## Cymunedau Diogelach

Mae hyn yn canolbwyntio ar greu cymunedau diogelach, yn enwedig trwy ystod o fesurau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a throseddu cysylltiedig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau cam-drin domestig, a thrwy waith ar gydlyniant cymunedol.   Mae'r Maes hefyd yn rhoi arian i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer mentrau penodol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddiogelwch cymunedol ac atal problemau.  Mae £4 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r Maes hwn yn y gyllideb ddrafft er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yn ogystal â chamddefnyddio sylweddau, lle y canolbwyntir yn benodol ar ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn feysydd lle y mae'n hysbys bod y gwasanaethau dan bwysau penodol o ganlyniad i'r dirywiad economaidd.

Mae'r cyllidebau cyfalaf yn y Maes hwn yn rhoi arian i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer mentrau penodol megis Firelink a New Dimension.  Mae'r Maes hwn hefyd yn rhoi arian i brosiectau cyfalaf camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig.  Bydd y Maes hwn yn cyflawni arbedion o £3.773 miliwn ar ôl i'r Broblem o ran System Chwistrellu Ysgolion gael ei datrys.  Yn ogystal, caiff £2.9 miliwn ei ail-flaenoriaethu o fewn y Maes hwn er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf camddefnyddio sylweddau ychwanegol.

Mae gan y Maes hwn gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol hefyd, sy'n ariannu costau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Tân.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei gwaith. Defnyddir cyllid cydraddoldeb dynodedig i helpu sefydliadau a/neu brosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghenion y bobl sy'n wynebu gwahaniaethu ac i feithrin cysylltiadau da. Yn ogystal, mae'r gronfa

gynhwysiant yn targedu rhai o’r grwpiau mwyaf difreintiedig megis ffoaduriaid, ceiswyr lloches a gweithwyr mudol. Mae arian yn cael ei neilltuo i roi gwell cyfleoedd i Sipsiwn-Teithwyr, gan gynnwys darpariaeth gyfalaf ar gyfer safleoedd newydd a rhai sydd wedi’u hadnewyddu.

### Tabl 3.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,161,359 | 37,843 | 4,199,202 | 4,262,195 | 37,843 | 4,300,038 |
| Polisi Trethiant Lleol | 16,465 | - | 16,465 | 16,064 | - | 16,064 |
| Polisi Llywodraeth Leol | 39,032 | - | 39,032 | 38,397 | - | 38,397 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 64,559 | 21,448 | 86,007 | 64,633 | 21,448 | 86,081 |
| Cymunedau Diogelach | 44,348 | 14,640 | 58,988 | 40,898 | 16,467 | 57,365 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 1,300 | 2,500 | 3,800 | 1,883 | 2,500 | 4,383 |
| **Cyfanswm TGA** | **4,327,063** | **76,431** | **4,403,494** | **4,424,070** | **78,258** | **4,502,328** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | |
| Cymunedau Diogelach | 13,025 | - | 13,025 | 13,583 | - | 13,583 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **4,340,088** | **76,431** | **4,416,519** | **4,437,653** | **78,258** | **4,515,911** |

# 4 YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH

**Nod Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yw sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys: cymorth uniongyrchol i gynyddu gweithgarwch economaidd ac elfen gystadleuol busnesau yng Nghymru; mynd i'r afael â gwaith adfywio safleoedd strategol a lleihau anweithgarwch economaidd a gwella ac integreiddio seilwaith trafnidiaeth.**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £4.9 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi lleihau £60.6 miliwn o'i gymharu â 2009-10, ac mae £33.4 miliwn o'r swm hwnnw'n ymwneud â'r ffaith bod gwariant cyfalaf wedi'i ddwyn ymlaen o 2010-11 er mwyn rhoi hwb i'r economi. Y £33.4 miliwn yw effaith gostyngiad mewn cyllid yn 2010-11, sef £16.7 miliwn a ddygwyd ymlaen i 2009-10.

O'i chymharu â chynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi lleihau o £725.7 miliwn i £723.0 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu:

- arbedion pellach o £7 miliwn (1.6 y cant) i'w cyflawni yn dilyn adolygiad o aliniad strategol sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau o fewn y Grŵp Datblygu Economaidd a thrwy adolygiad o sut rydym yn sicrhau gwasanaethau cynnal ffyrdd;
- cyllid ychwanegol o £6 miliwn i ategu cost Swyddogion Traffig a gwneud gwaith ymchwil a datblygu ychwanegol mewn cydweithrediad â busnesau; a
- trosglwyddo £1.6 miliwn i Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu er mwyn alinio’r cyllidebau y mae’r Prif Weinidog yn gyfrifol amdanynt

O'i chymharu â chynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi lleihau o £468.5 miliwn i £431.0 miliwn, gan adlewyrchu:

- gostyngiad o £20.7 miliwn o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid;
- y ffaith bod gwariant cyfalaf o £16.7 miliwn wedi'i ddwyn ymlaen o 2010-11 er mwyn rhoi hwb i’r economi yn ystod y dirywiad economaidd.

## Meysydd Rhaglen Wariant yr Economi a Thrafnidiaeth

### Cymorth Cwsmeriaid a Datblygu Polisïau a Strategaethau

Mae'r Maes hwn yn rhoi help i fusnesau sydd wedi'i deilwra ar eu cyfer hwy'n benodol o dan fodel Cymorth Hyblyg i Fusnes. Bydd y cyllid yn cefnogi canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol, y gwaith o werthuso gwasanaethau i gwsmeriaid, rhannu arferion gorau a chydweithio â phartneriaid.

Bydd y cyllid hefyd yn hwyluso'r broses o ddatblygu polisi a strategaeth i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar economi Cymru.

Gwelwyd gostyngiad bach yn y gyllideb o £0.260 miliwn i gyfrannu i'r targed arbedion cyffredinol.

### Marchnata Domestig a Rhyngwladol a Digwyddiadau Mawr

Bydd amcanion marchnata yn ceisio codi proffil rhyngwladol Cymru, a datblygu a hyrwyddo brand Cymru. Yn gyffredinol mae'r gyllideb yn parhau i fod yn unol â blwyddyn ariannol 2009-10.

### Busnesau'n Dechrau, yn Tyfu, yn Ffynnu ac yn Buddsoddi

Bydd y camau a gymerir yn helpu busnesau i ddechrau a thyfu ac yn cyfrannu i'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i ysgogi mentergarwch a helpu busnesau cynaliadwy.

Bydd y maes gweithgarwch hwn yn rhan o adolygiad o'r aliniad strategol cyffredinol ar draws y Grŵp Datblygu Economaidd gyda'r nod o sicrhau arbedion effeithlonrwydd heb effeithio ar lefel y gwasanaethau a ddarperir yn fwy nag sydd raid. Felly, mae'r gyllideb wedi'i lleihau £7.3 miliwn.

### Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd

Mae'r gwariant yn y Maes hwn yn mynd tuag at sicrhau cyflenwad digonol a phriodol o safleoedd. Bydd y gweithgareddau yn sicrhau ac yn hwyluso seilwaith, eiddo cyflogaeth a thai fforddiadwy.

Mae'r gyllideb net o £24.5 miliwn (ac eithrio dibrisiant o £33.2 miliwn) £12.5 miliwn yn llai na'r hyn a ddangosir ar gyfer 2009-10 yn sgil dwyn ymlaen brosiectau cyfalaf o 2010-11 i 2009-10.

### Rhyngwladoli Economi Cymru

Bydd y cymorth yn canolbwyntio ar gynnig cefnogaeth masnach ryngwladol i fusnesau a sicrhau mewnfuddsoddiad o farchnadoedd byd-eang. Mae gweithgareddau rhyngwladol yr Adran yn rhan o'r adolygiad o aliniad strategol y grŵp datblygu economaidd cyffredinol, ac o ganlyniad, mae'r gyllideb wedi'i lleihau £0.450 miliwn i gyfrannu i'r targed effeithlonrwydd cyffredinol.

## Datblygu Cymru fel canolbwynt Arloesi, Technoleg a Masnacheiddio

Bydd y rhaglen ar gyfer 2010-11 yn parhau i sicrhau blaenoriaethau allweddol *Cymru'n Un* ac agenda polisi gwyddoniaeth, ymchwil a masnacheiddio, a mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n deillio o'r hinsawdd economaidd.

Yn ogystal â gostyngiad yn y gyllideb o £1.3 miliwn yn sgil Ymarfer Asesu Adnoddau y llynedd, disgwylir i'r adolygiad o aliniad strategol y Grŵp Datblygu Economaidd sicrhau tua £4.2 miliwn mewn arbedion o'r maes gweithgarwch hwn. Ar wahân i hyn, mae £4 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i wneud gwaith Ymchwil a Datblygu newydd mewn cydweithrediad â busnesau.

## Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)

Mae'r Maes hwn yn ceisio gwella a moderneiddio rhwydweithiau cefnffyrdd domestig a gweithredu'r Flaenraglen Cefnffyrdd. Mae'n cyflawni dyletswydd statudol y Cynulliad i reoli, gweithredu a chynnal diogelwch y rhwydwaith. Defnyddir cyllid hefyd i weithredu'r flaenraglen gefnffyrdd a rheoli'r fasnachfraint rheilffyrdd.

Mae tablau'r gyllideb yn dangos cynnydd yn y gyllideb refeniw o £20.9 miliwn rhwng 2009-10 a 2010-11. Mae hyn yn adlewyrchu newid yng nghyllideb sylfaenol 2010-11 o ryw £9 miliwn er mwyn talu am gostau ychwanegol rheilffyrdd a'r angen i reoli pwysau refeniw fel prisiau rhatach.

Mae dyraniad y gyllideb gyfalaf o £103.8 miliwn £3.1 miliwn yn llai na'r hyn a ddangosir ar gyfer 2009-10 yn sgil dwyn ymlaen raglenni cyfalaf o 2010-11 i 2009-10, a bu dyraniad cyllidebol ychwanegol.

## Gwella Cysylltedd Rhyngwladol

Gweithgareddau allweddol sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol drwy Ffyrdd, yr Awyr a'r Môr. Darperir cyllid i wella a chynnal rhwydwaith ffyrdd yr M4 a'r A55, cymorth ar gyfer gwasanaethau awyr, Gwasanaeth Cymorth Technegol Grant Cyfleuster Nwyddau a gwella a chynnal gweithgareddau porthladdoedd. Yn gyffredinol, mae cyfanswm dyraniad y gyllideb refeniw yn parhau i fod yn unol â'r un ar gyfer 2009-10.

Mae dyraniad y gyllideb gyfalaf o £38.7 miliwn £20.9 miliwn yn llai nag ar gyfer 2009-10 yn sgil arbedion effeithlonrwydd, y ffaith bod rhaglenni cyfalaf wedi'u dwyn ymlaen o 2010-11 i 2009-10 a dyraniad cyllidebol ychwanegol yn 2009-10 yn unig, o £8 miliwn.

## Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol)

Mae Maes y Rhaglen Wariant yn darparu arian ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau bws lleol sy'n derbyn cymhorthdal ac sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, gwella trafnidiaeth leol a chynlluniau cynnal a chadw, datblygu'r Fenter Trefi Teithio Cynaliadwy a hyrwyddo beicio diogel ar gefnffyrdd.

Mae dyraniad cyllideb refeniw 2010-11 o £93.0 miliwn £9 miliwn yn llai na'r hyn a ddangosir ar gyfer 2009-10 oherwydd cost is ddisgwyliedig tocynnau rhatach yn 2010-11.

Mae dyraniad y gyllideb gyfalaf o £120.9 miliwn £15 miliwn yn is na'r hyn a ddangosir ar gyfer 2009-10 yn sgil dwyn ymlaen raglenni cyfalaf ac arbedion sy'n deillio o ostyngiad yn y grant cynnal ffyrdd lleol.

### Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd

Bydd y cynlluniau a'r mentrau a ariennir yn cefnogi gweithredu'r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru ac yn cynnwys grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer peirianneg ac addysg diogelwch ffyrdd, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, ynghyd â rhaglen ar gyfer cynlluniau gwella diogelwch lleol a chynlluniau i leihau sŵn. Yn gyffredinol, mae dyraniad y gyllideb refeniw ar gyfer 2010-11 yn unol â'r un ar gyfer 2009-10.

Mae dyraniad y gyllideb gyfalaf o £18.3 miliwn £2.6 miliwn yn uwch nag yn 2009-10 yn sgil ailddyrannu yn 2009-10 i Feysydd eraill i fodloni gofynion yn ystod y flwyddyn.

### Ardaloedd Adfywio Strategol

Bydd y ffocws strategol ar gyfer gweithgareddau adfywio ar draws Cymru yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu strategol i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl a bydd yn efelychu'r arferion gorau a welwyd yn Rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Menter Môn a Menai.

Caiff ymrwymiadau *Cymru'n Un* yn 'Cymdeithas Deg a Chyfiawn' a 'Cymdeithas Lewyrchus' eu gweithredu drwy'r camau hyn.

Mae cyfanswm y cynnydd yn y gyllideb gyfalaf a refeniw, sef £8 miliwn yn 2010-11, yn adlewyrchu'r amcan o fuddsoddi mewn Ardaloedd Adfywio Strategol yn bennaf, gyda gostyngiad cymesur mewn buddsoddiad a gweithgarwch mewn meysydd y rhoddwyd sylw iddynt yn y gorffennol.

### Rheoli'r gwaith o weithredu ardaloedd adfywio o'r gorffennol

Mae'r Maes hwn o'r Rhaglen Wariant yn ei gwneud yn bosibl i'r ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes ategu strategaethau lleol er mwyn i'r effaith economaidd fod yn gyflawn

Cyfanswm y gyllideb gyfalaf a refeniw yn 2010-11 ar gyfer meysydd sydd wedi cael arian yn y gorffennol yw £11.5 miliwn yn llai na'r hyn a ddangosir ar gyfer 2009-10 wrth i rai prosiectau sy'n parhau agosáu at gael eu cwblhau ac wrth i adnoddau gael eu dyrannu tuag at gyflawni amcanion cynlluniau gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol.

### Paratoi Ardaloedd Adfywio Strategol ar gyfer y Dyfodol

Yn 2008 cyflwynwyd cyfeiriad a gweledigaeth newydd ar gyfer adfywio i ddarparu dull mwy strategol, hirdymor a holistaidd i adfywio. Drwy'r dull hwn buddsoddir yn benodol mewn pobl a llefydd mewn Ardaloedd Adfywio

Strategol dros gyfnod diffiniedig o amser, gan arwain at ffocysu cymorth ar raglenni mwy, sy'n fwy hirdymor, a’r rheini wedi'u halinio â blaenoriaethau allweddol. Bydd y cyllid yn y Maes hwn yn cefnogi'r datblygiad hwn ar gyfer Ardaloedd Adfywio Strategol yn y dyfodol.

Mae dyraniad cyllideb uwch o £1 miliwn yn 2010-11 yn darparu ar gyfer gwaith datblygu hanfodol a pharhaus mewn nifer fach o Ardaloedd Adfywio Strategol ychwanegol sy'n datblygu ac sy'n cael eu hystyried.

### Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol

Bydd Maes y Rhaglen Wariant yn cefnogi ac yn cyllido prosiectau Ymchwil a Gwerthuso Economaidd a'r Panel Ymchwil a Chynghori Economaidd, ac yn cyfrannu i Fenter Her Iechyd Cymru. Bydd yn datblygu themâu trawsbynciol, yn ogystal â darparu gwasanaethau corfforaethol ac ariannol cyffredinol.

Mae'r gyllideb yn dangos gostyngiad o £6.7 miliwn. Y prif reswm yw bod £1.7 miliwn wedi'i drosglwyddo o’r Prif Grŵp Gwariant mewn perthynas â'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol a gostyngiad pellach o £5 miliwn, a ddyrannwyd i'r llinell gyllideb hon yn 2009-10 yn unig, er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer camau byrdymor penodol mewn perthynas â'r hinsawdd economaidd gyfredol.

### Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus

Bydd y gwariant yn cefnogi prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n cydgasglu'r galw am fand eang ar draws rhannau mawr o'r sector cyhoeddus a bydd yn cynnig ateb cyfunol un rhwydwaith i Gymru gyfan.

Gwelwyd gostyngiad bach yn y gyllideb o £0.485 miliwn o ganlyniad i'r gofyniad i ddod o hyd i arbedion refeniw o Ymarfer Asesu Adnoddau y flwyddyn flaenorol.

### Rheoli’r gwaith o Weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru

Mae’r Maes hwn o’r Rhaglen Wariant yn ariannu rhai o’r costau gweinyddol sy’n codi wrth redeg Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a reolir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

## Tabl 4.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant yr Economi a Thrafnidiaeth

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| **DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | |
| Cymorth Cwsmeriaid a Datblygu Polisïau a Strategaethau | 3,361 | - | 3,361 | 3,088 | - | 3,088 |
| Marchnata Domestig a Rhyngwladol a Digwyddiadau Mawr | 8,890 | 800 | 9,690 | 9,528 | 400 | 9,928 |
| Busnesau'n Dechrau, yn Tyfu, yn Ffynnu ac yn Buddsoddi | 37,102 | 82,681 | 119,783 | 34,556 | 77,899 | 112,455 |
| Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd | 41,499 | 28,726 | 70,225 | 41,261 | 16,416 | 57,677 |
| Rhyngwladoli Economi Cymru | 5,975 | - | 5,975 | 5,525 | - | 5,525 |
| Datblygu Cymru fel canolbwynt Arloesi, Technoleg a Masnacheiddio | 17,531 | 5,794 | 23,325 | 19,196 | 2,794 | 21,990 |
| **TRAFNIDIAETH** | | | | | | |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 271,291 | 106,947 | 378,238 | 292,167 | 103,834 | 396,001 |
| Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol) | 102,006 | 135,917 | 237,923 | 93,006 | 120,917 | 213,923 |
| Gwella Cysylltedd Rhyngwladol | 190,240 | 59,612 | 249,852 | 190,561 | 38,683 | 229,244 |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd | 8,397 | 15,716 | 24,113 | 8,397 | 18,257 | 26,654 |
| **ADFYWIO** | | | | | | |
| Ardaloedd Adfywio Strategol | 1,950 | 33,288 | 35,238 | 2,215 | 41,108 | 43,323 |
| Rheoli'r Gwaith o Weithredu Ardaloedd Adfywio o'r Gorffennol | 11,113 | 18,021 | 29,134 | 10,453 | 7,147 | 17,600 |
| Paratoi Ardaloedd Adfywio Strategol ar gyfer y Dyfodol | 50 | 2,063 | 2,113 | 50 | 3,017 | 3,067 |
| **GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A SWYDDFA CYLLID EWROPEAIDD CYMRU** | | | | | | |
| Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 10,773 | 2,040 | 12,813 | 5,550 | 540 | 6,090 |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 6,600 | - | 6,600 | 6,115 | - | 6,115 |
| Rheoli'r Gwaith o Weithredu Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru | 1,328 | - | 1,328 | 1,290 | - | 1,290 |
| **Cyfanswm TGA** | **718,106** | **491,605** | **1,209,711** | **722,958** | **431,012** | **1,153,970** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | |
| Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd | 60,607 | - | 60,607 | 24,243 | - | 24,243 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 163,702 | - | 163,702 | 170,819 | - | 170,819 |
| Gwella Cysylltedd Rhyngwladol | 267,093 | - | 267,093 | 278,705 | - | 278,705 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **1,209,508** | **491,605** | **1,701,113** | **1,196,725** | **431,012** | **1,627,737** |

# 5 PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU

**Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn cydweithio â phartneriaid ledled Cymru i gynnig addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf, a hynny i sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr, busnesau a chyflogwyr fel y mae *Cymru'n Un* yn ei nodi. Mae hefyd yn gweithio i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd eu lle fel dinasyddion gweithgar, sydd wedi'u grymuso, a thrwy addysg a hyfforddiant fwynhau ansawdd bywyd gwell.**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £15 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid cyfalaf, sef £81.9 miliwn, o'i gymharu â lefelau 2009-10, yn adlewyrchu effaith dwyn ymlaen £34 miliwn o 2010-11 i flynyddoedd ariannol cynharach er mwyn rhoi hwb i'r economi, arian untro ychwanegol o £12.2 miliwn ar gyfer cynlluniau penodol yn 2009-10, a gostyngiad o £8.8 miliwn o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid.

O'i chymharu â chynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi lleihau £1.4 miliwn i £1.693 biliwn. Mae hyn yn adlewyrchu arbedion o £39.7 miliwn ac ail-flaenoriaethu o £35.6 miliwn, yn ogystal â'r swm canlyniadol o £2.7 miliwn mewn perthynas â Dysgu ar gyfer Troseddwyr. Cyflawnwyd y gostyngiadau drwy:

- arbedion effeithlonrwydd ar draws pob sector drwy gymhwyso ffactor effeithlonrwydd termau real, a hynny fel safon ofynnol yn unig;
- gweithredu dros gyfnod hirach a thynnu'n ôl yn raddol o rai rhaglenni, er enghraifft, yn sgil arbedion a nodwyd wrth ddiwygio Cyllid Myfyrwyr.

Caiff yr adnoddau a ryddheir eu defnyddio i barhau â'r rhaglenni sydd ar waith sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, yn enwedig i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc, adnoddau sy'n dod i gyfanswm o ryw £20.5 miliwn. Ymhlith y blaenoriaethau eraill sy'n cael eu hystyried wrth ail-flaenoriaethu mae cyllid ychwanegol i gefnogi'r symudiad tuag at gael

gwasanaeth cwnsela cyffredinol i bob plentyn a pherson ifanc, y Strategaeth Ieuenctid a chyfraniad Cymru i'r rhaglen Rheoli Gwybodaeth Ar Draws Partneriaid a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r newidiadau i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2010-11 yn adlewyrchu'r ffaith bod gwariant cyfalaf o £9 miliwn wedi'i ddwyn ymlaen o 2010-11 i 2008-09 a £25 miliwn i 2009-10, er mwyn cyflymu mân waith cyfalaf mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, er enghraifft Sefydliad Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Ngholeg Llandrillo, y gwaith o foderneiddio'r Cyfleuster Peirianneg yng Ngholeg Sir Benfro ac adeilad newydd yng Ngholeg Ystrad Mynach. Helpodd y fenter hon, y cytunwyd arni yn yr Uwchgynhadledd Economaidd gyntaf, ddiwydiant adeiladu Cymru yn ystod y dirwasgiad, ac mae wedi diogelu swyddi yng Nghymru. Mae gostyngiad o £8.8 miliwn o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid. Trwy gydweithio ar draws y system addysg yng Nghymru, byddwn yn ceisio gwella effaith ein buddsoddiad ac yn parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

## Meysydd Rhaglen Wariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS)

Mae dull strategol wedi'i ddefnyddio i drin dyraniadau o fewn Prif Grŵp Gwariant PADGOS. Mae'r gyfres integredig o gynigion cyllidebol wedi'u cynllunio i gyflawni blaenoriaethau *Cymru'n Un,* sicrhau arbedion a rheoli gan ddefnyddio llai o adnoddau. Mae penderfyniadau anodd wedi'u gwneud er mwyn rhyddhau adnoddau ar gyfer y blaenoriaethau pwysicaf. Bydd pob sector, o leiaf, yn cludo arbediad effeithlonrwydd termau real.

### Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae'r Maes hwn o Raglen Wariant APADGOS yn cynnwys cyllid ar gyfer:

- hawliau plant a phobl ifanc;
- hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc drwy roi cymorth i'w helpu i gyflawni eu potensial llawn;
- hyrwyddo cynhwysiant, lleihau anfantais a mynd i'r afael â diffyg cyfleoedd addysgol;
- mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr o bob oed gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol a phroblemau cynhwysiant; a
- ffocws ar effeithiolrwydd ysgolion;

Mae cynnydd o £2.5 miliwn wedi'i roi i barhau i weithredu'r camau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ieuenctid. Cyflawnwyd hyn drwy adolygu'r amseru mewn perthynas â'r gronfa ddata plant ac arbedion a nodwyd o fewn Cymorth.

O fewn y cyllidebau Arweinyddiaeth ac Effeithiolrwydd mewn Ysgolion, mae ffocws penodol ar weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wedi'i gwneud yn bosibl rhyddhau adnoddau o'r Gronfa Ysgolion Gwell a dyraniadau Ysgolion Bach a Gwledig.

Mae'r gyllideb Cymorth i Ddysgwyr wedi derbyn £1.5 miliwn ychwanegol er mwyn symud yn gyflym tuag at amcan yr Adran i gynnig gwasanaeth cwnsela i bob plentyn a pherson ifanc. Bydd y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a'r gweithgarwch a gynllunnir yn y gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau ar lefelau 2009-10.

### Gwella Cymwysterau, y Cwricwlwm ac Addysg

Mae'r Maes hwn o Raglen Wariant APADGOS yn cynnwys cyllid ar gyfer:

- gwella canlyniadau ymhlith dysgwyr a gwella'u lles drwy gwricwlwm ysgol sy'n seiliedig ar sgiliau a threfniadau asesu cysylltiedig;
- diwygio cymwysterau ar gyfer pob oed a datblygu'r fframwaith credydau; a
- datblygu ymarferwyr yn broffesiynol.

Byddwn yn parhau i ariannu'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gan sicrhau cyllideb yn unol â model ariannol a rhagamcaniadau disgyblion ar gyfer 2010-11 er mwyn bodloni cymarebau oedolyn : disgyblion.

Er y gobeithir am gynnydd yn y cyllidebau Cymwysterau a Dysgu o 2009-10, i raddau helaeth mewn perthynas â pharhau i gyflwyno'r Fagloriaeth Gymreig, mae rhai mân-arbedion wedi'u nodi o fewn y gyllideb gyffredinol hon.

Mae'r cyllidebau Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol wedi cael eu hadolygu ac mae'r arian dewisol sydd ar gael i ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon a phenaethiaid wedi'i leihau i gyflawni blaenoriaethau eraill, gan gynnwys buddsoddi mewn rhaglenni sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae cyllid ychwanegol o £1.75 miliwn wedi'i ryddhau i hyrwyddo argymhellion Strategaeth Gymraeg.

### Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Mae'r Maes hwn o Raglen Wariant APADGOS yn cynnwys cyllid i:

- gefnogi cyfraniad APADGOS i'r gwaith o arwain Cymru drwy'r dirwasgiad;
- hyrwyddo'r newidiadau sy'n ofynnol yn ein rhwydwaith o sefydliadau addysg a hyfforddiant fel eu bod yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion cenedlaethol a lleol; a

- nodi a diwallu'r anghenion am wybodaeth a sgiliau ymhlith unigolion, cyflogwyr a chymunedau yng Nghymru er mwyn cyfrannu tuag at greu poblogaeth â lefel uchel o addysg a sgiliau.

Mae'r gyllideb Busnes a Sgiliau yn parhau i gefnogi agenda *Cymru'n Un* wrth ddatblygu sgiliau gwella busnesau a'u gallu i gystadlu. Gwelwyd llwyddiant mawr o ran sicrhau cyllid o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd fel sail i ehangu'r cymorth i ddatblygu Sgiliau Arwain a Rheoli, rhaglenni sgiliau sectorau a chymorth sgiliau detholus/yn ôl disgresiwn yn unol â rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes. Yn ogystal, mae'r gyllideb a ddyrennir yn cynnwys £2.733 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU ar gyfer addysg i garcharorion. Mae rhai arbedion hefyd wedi'u nodi o fewn y gyllideb hon.

Bydd Addysg Uwch yn derbyn cyllideb sy'n cynnwys gofyniad i arbed rhyw 5 y cant ar gyfartaledd. Bydd y gyllideb hefyd yn caniatáu rhywfaint o raff i gyllido datblygiadau yn y rhwydwaith addysg uwch a'i ddarpariaeth a fydd yn deillio o strategaeth a chynllun gweithredu addysg uwch newydd. Mae cyllid ar gyfer y Brifysgol Agored wedi'i neilltuo o fewn y gyllideb gyffredinol hon.

Mae cyllideb Dysgu Gydol Oes a Darparwyr yn rhoi cyllid i ddysgu chweched dosbarth, Colegau Addysg Bellach, canolfannau dysgu cymunedol ymhlith oedolion, lleoliadau dysgu yn y gweithle a Gyrfa Cymru. Mae'r dysgu a gyllidir ganddi yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch, darpariaeth alwedigaethol, darpariaeth gymunedol fel Cymraeg i Oedolion, prentisiaethau ac Adeiladu Sgiliau – felly, mae'n datblygu'r crefftwyr ar gyfer economi Cymru a'r disgyblion sy'n mynd i'r brifysgol o'r chweched dosbarth. Ar gyfartaledd, bydd angen i'r sector ôl-16 arbed tua 5 y cant. Cynyddir cyllideb Gyrfa Cymru £0.8 miliwn (gyda chyfraniad pellach gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar ben hynny) fel rhan o'r mesurau i fynd i'r afael â diweithdra. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys cyllid i hyrwyddo'r newidiadau strategol yn y rhwydwaith darparwyr drwy'r agenda weddnewid.

Nodwyd cyllideb newydd 'Mesurau Economaidd – Sgiliau' o £13 miliwn drwy adolygu'r cyllidebau o fewn Prif Grŵp Gwariant PADGOS i sefydlu rhaglenni sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cynnig mwy o lefydd ar raglenni Adeiladu Sgiliau a Llwybrau at Brentisiaethau. Rhoddwyd y ddwy raglen hyn ar waith yn 2009-10.

Defnyddir cyllideb newydd 'Mesurau Economaidd – Diweithdra' o £6.743 miliwn, i ymestyn oes cynigion sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Warant Person Ifanc sy'n seiliedig ar gyflogaeth (gan gynnwys Cronfa Swyddi'r Dyfodol) a rhaglenni Croeso Euraid.

### Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau

Mae’r Maes hwn o Raglen Wariant APADGOS yn cynnwys cyllid i:

- roi cymorth ariannol i fyfyrwyr a dysgwyr eraill mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol;
- hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Adrannol, gwerth am arian a gwell canlyniadau drwy ddefnyddio data a gwybodaeth yn well; ac
- ariannu ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill cyn- ac ôl-16, fel eu bod yn addas i'r diben ac yn cael eu defnyddio fwyfwy fel adnodd cymunedol.

Mae cyllideb Cyllid ac Ariannu Myfyrwyr yn rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr, drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ymhlith eraill. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cynnwys peth arian cyfatebol sy'n dal ar ôl ar gyfer Prosiectau Ewropeaidd sy'n dod i'w terfyn naturiol. Ymhlith yr arbedion a nodwyd mai tua £1.5 miliwn o'r Prosiectau Ewropeaidd a nodwyd a thua £3.75 miliwn o'r arbedion a nodwyd yn dilyn diwygio Cyllid Myfyrwyr.

Mae'r gyllideb Cyllid Cyfalaf yn cynnwys y rhan fwyaf o gyllidebau cyfalaf APADGOS ac un o’r rhesymau dros y gostyngiad ymddangosiadol yn 2010-11 yw'r ffaith bod cyllid wedi'i ddwyn ymlaen i ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, gan ryddhau cyllid cyfalaf yn gynharach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Bydd dull newydd i ddatblygu ysgolion y 21ain ganrif ar y cyd â llywodraeth leol yn sicrhau effaith fwyaf bosibl yr adnodd cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael i hyrwyddo gwerthoedd y cyhoedd a mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae cyllideb Rheoli Gwybodaeth yn cynnwys cyllid i gefnogi gwerthuso a marchnata ymchwil. Mae rhai arbedion o £0.5 miliwn wedi'u nodi yn erbyn y cyllidebau hyn i gyflawni blaenoriaethau mewn rhannau eraill o'r Prif Grŵp Gwariant. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi hefyd systemau casglu rheoli data APADGOS fel Record Dysgu Gydol Oes Cymru a ddefnyddir i gasglu data ar addysg ôl-16 a dilysu taliadau i ddarparwyr a rhoi data i gefnogi prosiectau Ewropeaidd ac archwiliadau sy'n sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol i ategu rhaglenni prif ffrwd APADGOS. Mae cyllid ychwanegol o ryw £1.5 miliwn wedi'i nodi i wella a chynnal systemau APADGOS a chyfrannu i Reoli Gwybodaeth ar draws Partneriaid.

Mae cyllideb Prosiectau Strategol yn cefnogi mentrau rhyngwladol APADGOS, y nodwyd rhai arbedion yn eu herbyn.

### Tabl 5.1 - Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion | 220,236 | 7,206 | 227,442 | 197,305 | 6,806 | 204,111 |
| Gwella Cymwysterau, y Cwricwlwm ac Addysg | 141,008 | 80 | 141,088 | 159,887 | - | 159,887 |
| Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes | 1,033,697 | 35,505 | 1,069,202 | 1,047,774 | 19,436 | 1,067,210 |
| Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau | 282,875 | 222,050 | 504,925 | 287,926 | 156,650 | 444,576 |
| **Cyfanswm TGA** | **1,677,816** | **264,841** | **1,942,657** | **1,692,892** | **182,892** | **1,875,784** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | |
| Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau | 163,660 | - | 163,660 | 174,266 | - | 174,266 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **1,841,476** | **264,841** | **2,106,317** | **1,867,158** | **182,892** | **2,050,050** |

## 6. YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI

**Mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gyfrifol am nifer o feysydd: mae'n arwain o ran llunio a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio ynni'n effeithlon a threchu tlodi tanwydd. Mae'r Adran yn gyfrifol hefyd am lunio a gweithredu polisi llifogydd a dŵr, gwastraff ac ynni. Mae'n arwain ym maes diogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth a chadwraeth natur, y môr a mynediad i'r arfordir ac i gefn gwlad a gwella amgylcheddau lleol. Yr Adran sy'n gyfrifol o fewn Llywodraeth y Cynulliad am dai, gwella tai, eu cyflenwi, eu hansawdd, ac am fynd i'r afael â digartrefedd. Hefyd, yr Adran sy'n arwain ar bolisi, deddfwriaeth a rheoliadau cynllunio.**

### Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £18,861 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi lleihau £101.727 o'i gymharu â 2009-10. Gwariant cyfalaf a ddygwyd ymlaen o 2010-11 i roi hwb i'r economi. Y £68 miliwn yw effaith gostyngiad mewn cyllid yn 2010-11, sef £40 miliwn, a dygwyd £28 miliwn o'r swm hwnnw ymlaen i 2009-10 a dygwyd y £12 miliwn sy'n weddill ymlaen i 2008-09.

O'i chymharu â chynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi lleihau £2.901 miliwn i £369.094. Mae hyn yn adlewyrchu:

- ail-flaenoriaethu o fewn y Prif Grŵp Gwariant, sydd wedi rhyddhau £5.901 miliwn; a

- mae'r gyllideb refeniw gyfan yn cynnwys hefyd ddyraniadau ychwanegol o £3.0 miliwn i ariannu digartrefedd (£1.05 miliwn), effeithlonrwydd ynni (£0.7 miliwn), rheoli perygl llifogydd (£0.8 miliwn), cynllunio (£0.37 miliwn) a bioamrywiaeth (£0.08 miliwn).

O'i chymharu â chynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi lleihau £56.807 miliwn i £348.558 miliwn, gan adlewyrchu:

- gostyngiad o £16,807 miliwn o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid; ac

- yn arbennig, y ffaith bod gwariant cyfalaf o £40m wedi'i ddwyn ymlaen o 2010-11 i flynyddoedd ariannol cynharach i gyfrannu at gwrdd â tharged 'Cymru'n Un' o ddarparu 6,500 o dai fforddiadwy a hefyd i gefnogi'r diwydiannau adeiladu a chyflenwi trwy sbarduno gwaith adeiladu a datblygu.

## Meysydd Rhaglen Wariant yr Amgylchedd, Cynaliadwy a Thai

### Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd

Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, diogelu'r amgylchedd a gwella cynaliadwyedd.

Mae hyn yn cynnwys strategaeth ynni, defnyddio ynni'n effeithlon, microgynhyrchu, apeliadau amgylcheddol, yr Ymddiriedolaeth Garbon, datblygu cynaliadwy a rheoli perygl llifogydd a chefnogi ymrwymiad *Cymru'n Un* a'u nod o leihau allyriadau carbon a'u cyfatebol 3 y cant y flwyddyn erbyn 2011 yn y meysydd sydd wedi'u datganoli.

Cyllid

- Cyfanswm Refeniw £119.710 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 13.7 y cant o'i gymharu â 2009-10 yn sgil:
    - Cynnydd o £16.2 miliwn yn y llinell sylfaen (£13 miliwn Gwastraff, £1.5 miliwn Defnyddio Ynni'n Effeithlon, £0.5 miliwn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, £1.12 miliwn Llifogydd);
    - £1.5 miliwn o refeniw ychwanegol (£0.8 miliwn Llifogydd, £0.7 miliwn Defnyddio Ynni'n Effeithlon); a
    - £3.2 miliwn o arbedion trwy effeithlonrwydd (£3 miliwn ohonynt o Wastraff).

- Cyfanswm Cyfalaf £67.22 miliwn. Dyma ostyngiad o 13.4 y cant (heb gynnwys arian ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol) yn sgil:
    - arbedion trwy effeithlonrwydd o £2.45 miliwn o gyfalaf;
    - £2.92 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2009-10 tuag at Effeithlonrwydd Ynni Cartref; a
    - £5 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2009-10 tuag at fenthyciadau Effeithlonrwydd Ynni

### Yr Amgylchedd

Ariannu Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Yn cynnwys cynnal rhaglen Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynediad i gefn gwlad a llwybr arfordirol Cymru gyfan.

Ariannu'r Strategaeth Wastraff i gyrraedd targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer lleihau gwastraff, cynyddu cyfraddau ailgylchu ac anfon llai i'w dirlenwi er mwyn gwireddu ymrwymiadau *Cymru'n Un* ar gyfer gwella'r amgylchedd lleol.

Cyllid

- Cyfanswm Refeniw £80.765 miliwn. Dyma gynnydd o 0.6 y cant yn sgil arbedion trwy effeithlonrwydd a sicrheir yn 2010-11;
- Cyfanswm Cyfalaf £8.259 miliwn;
- Cyfanswm nad yw'n arian parod £3.198 miliwn

## Cynllunio

Datblygu a chynnal y system gynllunio yng Nghymru i wneud yn siŵr ei bod yn diwallu anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys delio ag apeliadau, cyhoeddi dogfennau cynllunio, ariannu Comisiwn Dylunio Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru, awdurdodau lleol ac ymchwil i gynllunio.

Cyllid

- Cyfanswm Refeniw £8.074 miliwn. Dyma gynnydd o 5.7 y cant yn sgil:
    - £0.370 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol;
    - £0.057 miliwn o arbedion effeithlonrwydd refeniw.

## Tai

*Gwella Tai:* Yn cynnwys grantiau cyfalaf i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynnal a gwella'r stoc tai cymdeithasol, a chyllid ar gyfer ardaloedd adfywio, ymddiriedolaethau tir cymunedol, asiantaethau gwella cartrefi a'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Y prif amcanion, ymhlith eraill, yw sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012.

*Darparu Tai Newydd:* Arian cyfalaf ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol newydd a grantiau ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Y prif amcanion yn cynnwys ymrwymiadau *Cymru'n Un* i ddarparu 6,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol erbyn 2011 a gwella cyfleoedd i gael tŷ.

*Cefnogi Pobl Agored i Niwed / Mewn Perygl*: Helpu pobl agored i niwed i aros gartref a darparu llety â chymorth gan gynnwys Cartrefi Nyrsio Dielw, a chyfrannu at gyflawni ymrwymiad *Cymru'n Un* i gefnogi gofal cymdeithasol.

Cyllid

- Cyfanswm Refeniw £157.3 miliwn. Dyma gynnydd net o 2.7 y cant yn sgil:

- Cynnydd o £5.4 miliwn yn y llinell sylfaen (£4.9 miliwn Cefnogi Pobl, £0.5 miliwn Asiantaethau Gwella Cartrefi);

- Dyraniad ychwanegol o £1.05 miliwn ar gyfer mesurau i fynd i'r afael â digartrefedd; a

- £2.318 miliwn o arbedion refeniw trwy effeithlonrwydd.

- Cyfanswm Cyfalaf £273 miliwn. Dyma ostyngiad o 17.1 y cant (heb gynnwys yr arian ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol) yn sgil:

  - £40 miliwn a ddygwyd ymlaen ar gyfer Grantiau Tai Cymdeithasol;

  - cynnydd o £35 miliwn yng nghyllideb 2009-10 o ganlyniad i ariannu yn ystod y flwyddyn (dygwyd £28 miliwn ymlaen i ariannu Grantiau Tai Cymdeithasol, £7 miliwn ar gyfer Cyflymu Prosiectau Tai);

  - gostyngiad o £2 miliwn yn y llinell sylfaen (Cartrefi Nyrsio Dielw); ac

  - arbedion cyfalaf trwy effeithiolrwydd o £14.4 miliwn.

### Tabl 6.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 105,938 | 77,585 | 183,523 | 119,710 | 67,220 | 186,930 |
| Yr Amgylchedd | 83,485 | 8,259 | 91,744 | 83,963 | 8,259 | 92,222 |
| Tai | 7,641 | - | 7,641 | 8,074 | - | 8,074 |
| **Cyfanswm y DEL** | 153,169 | 364,441 | 517,610 | 157,347 | 273,079 | 430,426 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **350,233** | **450,285** | **800,518** | **369,094** | **348,558** | **717,652** |
| Tai | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | -72,000 | - | -72,000 | -52,000 | - | -52,000 |
| | **278,233** | **450,285** | **728,518** | **317,094** | **348,558** | **665,652** |

# 7 MATERION GWLEDIG

**Amcan yr Adran Cefn Gwlad yw cefnogi diwydiannau ffermio, pysgota a choetiroedd Cymru i fod yn fwy cynaliadwy. Mae'n cefnogi mesurau i ddatblygu cadwyni cyflenwi cynaliadwy ac uwch eu gwerth gan ddefnyddio'r cynnyrch cynradd a gynhyrchir gan y diwydiannau ffermio, pysgota a choetiroedd; yn hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid, yn hyrwyddo arferion ffermio da a rheolaeth dda ar dir; ac yn diogelu'r amgylchedd naturiol ac yn cyfrannu at weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.**

## Crynodeb o'r newidiadau i'r gyllideb Materion Gwledig

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £1.572 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

O'i chymharu â chynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi lleihau £2.047 miliwn i £136.407. Mae hynny'n cynrychioli gostyngiadau trwy ail-flaenoriaethu o fewn y Prif Grŵp Gwariant, yn arbennig mewn cysylltiad â gwariant refeniw y Comisiwn Coedwigaeth, gwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig ac ar y Cynllun Newydd-ddyfodiaid a hybu bwyd Cymru.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi lleihau £0.807 miliwn o'i gymharu â 2009-10 a'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008. Mae'r gostyngiad hwn yn deillio o effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid.

## Meysydd Rhaglen Wariant Materion Gwledig

### Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae'r Maes hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer lles anifeiliaid a thrin clefydau fel y Tafod Glas, iawndal ar gyfer TB gwartheg a chyflawni ymrwymiad *Cymru'n Un* i fynd ati'n ddyfal i gynnal rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg.

### Polisïau Ewrop Wledig

Mae'r Maes hwn bellach yn cynnwys yr holl wariant ar Gynllun Datblygu Gwledig 2007-13 a'r Taliadau Fferm Sengl sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n talu hefyd am rai o gostau TG darparu'r taliadau hyn a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

### Y Dystiolaeth

Diben cronfa'r rhaglen hon yw ateb y gofyn am dystiolaeth sy'n benodol Gymreig. Gallai gynnwys comisiynu ymchwil, asesu data penodol sy'n bod

eisoes neu werthuso polisïau a chynlluniau. Y mae hefyd yn darparu arian ar gyfer iechyd planhigion a GM i gynnal ymchwil gysylltiedig a chyngor technegol er mwyn cael tystiolaeth i gefnogi polisi iechyd planhigion ac yn arbennig ymrwymiad *Cymru'n Un* o ran cnydau GM.

### Diwydiant Bwyd, Pysgod a Diod Cymru

Amcan y Maes hwn yw hyrwyddo ac ehangu diwydiant bwyd amaeth a diodydd Cymru. Mae'n cynnwys hefyd gefnogaeth i'r diwydiant pysgodfeydd a dyframaeth.

### Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chefn Gwlad

Mae'r Maes hwn yn cefnogi gwaith y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i gefnogi ffermwyr ifanc newydd i'r diwydiant ffermio.

### Tabl 7.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Materion Gwledig

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Diogelu a gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 23,203 | - | 23,203 | 25,153 | - | 25,153 |
| Polisïau Gwledig Ewropeaidd | 70,327 | 16,179 | 86,506 | 69,054 | 15,372 | 84,426 |
| Sail Tystiolaeth | 1,115 | 38 | 1,153 | 1,065 | 38 | 1,103 |
| Diwydiant Bwyd, Pysgod a Diod Cymru | 6,994 | 1,524 | 8,518 | 6,689 | 1,524 | 8,213 |
| Polisi Amaeth Cyffredin a Chefn Gwlad | 33,196 | -205 | 32,991 | 34,446 | -205 | 34,241 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **134,835** | **17,536** | **152,371** | **136,407** | **16,729** | **153,136** |

# 8 TREFTADAETH

**Nod yr Adran Dreftadaeth yw ehangu mynediad i'r celfyddydau a diwylliant i bawb; annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol; creu Cymru ddwyieithog lle mae cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd; gwarchod, diogelu, cynnal a hyrwyddo mynediad ehangach at amgylchedd hanesyddol Cymru; creu llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain; a hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng Nghymru.**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb Treftadaeth

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £2.205 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi gostwng £2.175 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

O'i chymharu â'r cynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi cynyddu £0.864 miliwn i £147.371 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu cynilion o £2.136 miliwn, a gyflawnwyd trwy arbedion, a thrwy ailflaenoriaethu gwariant o fewn y Prif Grŵp Gwariant, er enghraifft o ran costau rhedeg y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC).

Mae'r gyllideb refeniw gyffredinol hefyd yn cynnwys dyraniadau ychwanegol o £3 miliwn:

- i helpu i ailstrwythuro CNLCau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni pob un o'u hymrwymiadau yn *Cymru'n Un* yn y dyfodol;
- i roi arian ychwanegol i sefydliadau celfyddydol a ariennir gan refeniw, gan dargedu'r rheini sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar y gymdeithas, er mwyn helpu'r unigolion a'r cymunedau sy'n dioddef effaith y dirwasgiad economaidd;
- i ariannu rhaglen gan Gyngor Llyfrau Cymru, er mwyn gwella gallu cyhoeddwyr i gystadlu drwy fwy o gymorth golygyddol;
- i gryfhau'r cyfraniad y gall Croeso Cymru ei wneud at y gwaith o baratoi ar gyfer Cwpan Ryder, gan dargedu hyfforddiant achrededig i wirfoddolwyr; ac
- i helpu prosiectau penodol, er mwyn moderneiddio trefniadau gweithio yn y sector treftadaeth a hyrwyddo mwy o weithio mewn partneriaeth.

O'i chymharu â'r cynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi gostwng £0.729 miliwn i £15.122 miliwn, sy'n adlewyrchu gostyngiad o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid.

## Meysydd Rhaglen Wariant Treftadaeth

### Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill

Mae'r Maes hwn yn helpu'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, gan gynnwys arian ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol.

### Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd

Mae'r Maes hwn yn helpu i ddarparu'r gwasanaeth Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yng Nghymru, gan gynnwys arian ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hefyd yn cynnwys arian ar gyfer Cymal a llyfrgelloedd lleol.

### Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol

Mae'r Maes hwn yn helpu i weithredu Strategaeth Dringo'n Uwch Llywodraeth y Cynulliad ac yn rhoi arian i Gyngor Chwaraeon Cymru.

### Hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill

Mae'r Maes hwn yn cynnwys cymorth ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Llyfrau Cymru a Chronfa Cymru Ddwyieithog.

### Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol

Mae'r Maes hwn yn ariannu gwariant Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

### Twristiaeth

Mae'r Maes hwn yn helpu i hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn y DU a thramor, ac i hyrwyddo dull Cymru gyfan o ymdrin â thwristiaeth drwy'r pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol.

## Tabl 8.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Treftadaeth

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill | 35,751 | 2,345 | 38,096 | 36,780 | 1,090 | 37,870 |
| Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd | 46,295 | 7,672 | 53,967 | 46,664 | 6,602 | 53,266 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 26,852 | 1,170 | 28,022 | 27,145 | 1,170 | 28,315 |
| Hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill | 17,545 | 125 | 17,670 | 17,949 | 125 | 18,074 |
| Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 5,789 | 5,985 | 11,774 | 5,769 | 6,135 | 11,904 |
| Twristiaeth | 12,934 | - | 12,934 | 13,064 | - | 13,064 |
| **Cyfanswm TGA** | **145,166** | **17,297** | **162,463** | **147,371** | **15,122** | **162,493** |
| **GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL (GRF)** | | | | | | |
| Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd | 21,754 | - | 21,754 | 21,754 | - | 21,754 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **166,920** | **17,297** | **184,217** | **169,125** | **15,122** | **184,247** |

# 9 GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHERFFORMIAD

**Nod yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yw hyrwyddo camau i gydweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn unol â gofynion *Cymru'n Un* a *Cyflawni ar Draws Ffiniau*. Mae'r Adran hefyd yn helpu'r Arolygiaethau Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal Iechyd ac Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru .**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

Mae'r cyllid refeniw wedi gostwng £4.636 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi gostwng £0.020 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

O'i chymharu â'r cynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi gostwng £5.002 miliwn i £54.704 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu cynilion o £0.883 miliwn, a gyflawnwyd trwy ostyngiad, sef £0.5 miliwn, mewn cymorth o ran costau rhedeg Estyn, a thrwy ailflaenoriaethu cyllidebau eraill o fewn y Prif Grŵp Gwariant, sydd wedi rhyddhau £0.383 miliwn ychwanegol. Rhywbeth arall sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn yw'r ffaith bod £4.119 miliwn wedi'i drosglwyddo i'r Prif Grŵp Gwariant Gweinyddu Canolog ar ôl i Gwerth Cymru gael ei drosglwyddo o'r AGCPh i'r Adran Gyllid.

O'i chymharu â'r cynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi gostwng £0.020 miliwn o ganlyniad i effaith penderfyniadau'r DU o ran cyllid.

## Meysydd Rhaglen Wariant Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Maes hwn yn ariannu costau gweinyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae hefyd yn ariannu rhaglenni gwaith penodol er mwyn helpu AGGCC, gan gynnwys arferion rheoli perfformiad gwell, hyfforddi a datblygu'r gweithlu a gweithgareddau adolygu ac arolygu ar y cyd. Cyflawnir arbedion effeithlonrwydd refeniw o £0.252 miliwn o'r Maes hwn drwy osgoi dibynnu ar arolygwyr allanol y telir ffioedd iddynt a gwneud gwaith adolygu ar y cyd dros gyfnod hwy.

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae'r Maes hwn yn darparu arian ar gyfer costau gweinyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

### Estyn

Maes refeniw a chyfalaf sy'n rhoi cymorth i Estyn, Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae’r Maes hwn yn gallu sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £0.5 miliwn heb effeithio ar allu Estyn i gyflawni ei ystod lawn o swyddogaethau.

### Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad

Mae'r Maes hwn yn darparu'r arian i gynyddu cyfraniad fframweithiau arolygu, rheoleiddio a pherfformiad gymaint â phosibl. Mae'n helpu i weithredu rhaglen o adolygiadau llywodraethu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a gwaith parhaus gyda sefydliadau sy'n ymwneud â rheoleiddio, archwilio ac arolygu er mwyn sefydlu'r egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn eu gweithgareddau adolygu/arolygu.

### Cydweithio'n Lleol ac yn Rhanbarthol

Mae'r Maes hwn yn darparu cymorth i ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol ac i weithredu Cynllun Gofodol Cymru. Cyflawnir arbedion effeithlonrwydd o £0.119 miliwn o ganlyniad i raglenni a phrosiectau sy'n dod i ben yn 2009-10.

### Creu'r Cysylltiadau

Mae'r Maes hwn yn ariannu ystod o fentrau er mwyn arwain a hybu'r agenda ar gyfer newid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o ran gwella gwasanaethau a gwneud i'r gwasanaethau ganolbwyntio'n fwy ar anghenion dinasyddion.

### Y Gallu i Arwain a Rheoli

Mae'r Maes yn ariannu gwaith Rheoli yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n rhoi cyfleoedd i ddatblygu pobl, sefydliadau a systemau o fewn y gwasanaeth cyhoeddus. Cyflawnir arbediad effeithlonrwydd bach o £0.012 miliwn heb effeithio'n sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir.

### Tabl 9.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 30,867 | - | 30,867 | 30,959 | - | 30,959 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,895 | - | 2,895 | 2,963 | - | 2,963 |
| Estyn | 14,592 | 445 | 15,037 | 14,055 | 425 | 14,480 |
| Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad | 650 | - | 650 | 650 | - | 650 |
| Cydweithio'n Lleol ac yn Rhanbarthol | 480 | - | 480 | 360 | - | 360 |
| Creu'r Cysylltiadau | 8,645 | - | 8,645 | 4,521 | - | 4,521 |
| Y Gallu i Arwain a Rheoli | 1,211 | - | 1,211 | 1,196 | - | 1,196 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **59,340** | **445** | **59,785** | **54,704** | **425** | **55,129** |

# 10 GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU

**Mae Prif Grwp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys amrywiaeth eang o swyddogaethau, gan gynnwys costau gweinyddu Llywodraeth y Cynulliad, gwasanaethau canolog a'r rhaglen arian cyfatebol a dargedir ac sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Strwythurol yr UE.**

## Crynodeb o'r newidiadau i gyllideb Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Mae'r cyllid refeniw wedi cynyddu £5.9 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

Mae'r cyllid cyfalaf wedi lleihau £4.0 miliwn o'i gymharu â 2009-10.

O'i chymharu â'r cynlluniau refeniw dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb refeniw wedi cynyddu £0.9 miliwn i £361.2 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu:

- arbedion o £5.5 miliwn (1.6 y cant), a gyflawnwyd drwy gyllidebau staffio, defnyddio adeiladau yn fwy effeithlon, gwell caffael a lleihau biwrocratiaeth;
- trosglwyddo cyllid i Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sef £5.7 miliwn;
- trosglwyddo cyllid o Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sef £0.9 miliwn;
- dyraniad ychwanegol o £1.6 miliwn ar gyfer yr hyn sy'n disodli arolwg Byw yng Nghymru.

O'i chymharu â chynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008, mae'r gyllideb gyfalaf wedi gostwng £9.0 miliwn i £36.0 miliwn, gan adlewyrchu galw is na'r disgwyl ar gyllideb gyfalaf yr Arian Cyfatebol a Dargedir (er ein bod yn dal i ddisgwyl defnyddio'r holl Arian Ewropeaidd sydd ar gael yn ystod y cyfnod rhaglen Cronfeydd Strwythurol hwn).

## Meysydd Rhaglen Wariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

### Costau a Chyflogau Staff

Costau cyflog Llywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn Iechyd Cymru.

### Costau Gweinyddol

Costau rhedeg Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys: rheoli adeiladau ac ystadau; gwariant gweinyddol cyffredinol; costau TG a rhaglenni gweinyddol (Datblygu Busnes a'r Strategaeth Leoli yn bennaf).

### Gwasanaethau Gweinidogol

Yn cynnwys: cyllid ar gyfer costau etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru; gwasanaethau, gwerthusiadau ac ymchwil ystadegol: datblygu a chysylltiadau rhyngwladol; gwasanaethau gwybodaeth ddaearyddol; cyllid ar gyfer adolygu'r setliad datganoli yng Nghymru; costau rhedeg y Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol; Penodiadau Cyhoeddus; Digwyddiadau Gweinidogol a chysylltiadau corfforaethol; a gweithgareddau Croeso Cymru.

### Arian Cyfatebol a Dargedir

Arian cyfatebol canolog ar gyfer rhaglenni Cronfa Strwythurol yr UE 2007-13. Cronfa yw hon sydd ar gael i sefydliadau ym mhob sector nad ydynt fel arall yn gallu cael arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sy'n cyfrannu i flaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad.

## Tabl 10.1 Dyraniadau Meysydd Rhaglen Wariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Costau a Chyflogau Staff | 241,561 | | 241,561 | 245,738 | | 245,738 |
| Costau Gweinyddol | 92,480 | 15,033 | 107,513 | 91,674 | 15,033 | 106,707 |
| Gwasanaethau Gweinidogion | 11,236 | | 11,236 | 13,753 | | 13,753 |
| Arian Cyfatebol | 10,000 | 25,000 | 35,000 | 10,000 | 21,000 | 31,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **355,277** | **40,033** | **395,310** | **361,165** | **36,033** | **397,198** |

# ATODIAD 1 – Cysoni Cyllideb Bloc Cymru a Dyraniadau Adnoddau yn y Cynigion Blynyddol am y Gyllideb Ddrafft

Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Cynigion Blynyddol am y Gyllideb Ddrafft, sy'n nodi'r adnoddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu eu defnyddio yn ystod 2010-11 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos y cyllidebau ar sail y cânt eu dyrannu gan Drysorlys EM, tra bo'r ffigurau yn y Cynigion Blynyddol am y Gyllideb Ddrafft ar sail adnoddau.

Mae cyllideb Bloc Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth y Cynulliad ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o'r Adnoddau sy'n Ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys manylion cysoni ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant.

## IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| | **£000oedd** |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 5,797,568 |
| Cyfalaf | 296,612 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Refeniw | 89,849 |
| Cyfalaf | - |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **6,184,029** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG | -162,639 |
| Benthyca â Chymorth | -5,388 |
| Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol (a'r costau casglu) | -966,589 |
| Costau Cyfalaf Ychwanegol | 65,286 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **5,114,699** |

## CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 4,424,070 |
| Cyfalaf | 78,258 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Refeniw | 13,583 |
| Cyfalaf | - |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **4,515,911** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Benthyca â Chymorth | -14,842 |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu) | -980,172 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **3,520,897** |

## YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 722,958 |
| Cyfalaf | 431,012 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Refeniw | 473,767 |
| Cyfalaf | - |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **1,627,737** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Benthyca â Chymorth | -16,478 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -1,786 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **1,609,473** |

## PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 1,692,892 |
| Cyfalaf | 182,892 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Refeniw | - |
| Cyfalaf | 174,266 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **2,050,050** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -284 |
| Benthyca â Chymorth | -45,699 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **2,004,067** |

## YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 369,094 |
| Cyfalaf | 348,558 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Refeniw | -52,000 |
| Cyfalaf | - |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **665,652** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -3,198 |
| Benthyca â Chymorth | -80,989 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **581,465** |

## MATERION GWLEDIG

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 136,407 |
| Cyfalaf | 16,729 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **153,136** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -10,458 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **142,678** |

## TREFTADAETH

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 147,371 |
| Cyfalaf | 15,122 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Refeniw | 21,754 |
| Cyfalaf | - |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **184,247** |
| **Cysoni â’r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -34,150 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **150,097** |

## GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHERFFORMIAD

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 54,704 |
| Cyfalaf | 425 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **55,129** |
| **Cysoni â’r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -375 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **54,754** |

## GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU

| | £000oedd |
|---|---|
| | **2010-11** |
| **TGA** | |
| Refeniw | 361,165 |
| Cyfalaf | 36,033 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **397,198** |
| **Cysoni â’r Adnoddau** | |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -110 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **397,088** |

# ATODIAD 2 – Rhestr Eirfa

| | |
|---|---|
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu ac felly nid yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog Swyddfa'r Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| Adnoddau nad ydynt yn arian parod | Adnoddau a gronnwyd ac a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio adnoddau nad ydynt yn arian parod i gyllido gwario adnoddau sydd bron yn arian parod. |
| Adnoddau sydd bron yn arian parod | Trafodion a gronnwyd sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft, tâl, caffael cyfredol, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. |
| Adolygiad o Wariant | Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob adran yn Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd i ddod. Mae'r cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy fformwla Barnett. |
| CNLC | Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad |
| Cronfa Gyfunol Cymru | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| Cwmpas-gylchoedd | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasgylchoedd a'r cyfyngiadau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb. Mae'r cwmpasgylchoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant. |
| Cyfalaf | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau TGA ac GRF Llywodraeth y Cynulliad gyfyngiadau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| Cyfanswm y Gwariant a Reolir (CGR) | Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |

| | |
|---|---|
| Cyllidebu adnoddau | Mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. Dechreuwyd gwahaniaethu rhwng adnoddau nad ydynt yn arian parod ac arian sydd bron yn arian parod fel rhan o'r symudiad i gyllidebu adnoddau ar ôl Adolygiad 2002 o Wariant. |
| *Cymru'n Un* | Cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cyflwyno rhaglen flaengar, sefydlog ac uchelgeisiol ar gyfer llywodraethu yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Mae'n cynnig agenda flaengar ar gyfer gwella ansawdd bywyd pobl yn holl gymunedau Cymru, o bob cefndir ac yn enwedig y mwyaf agored i niwed a difreintiedig. Gallwch ddarllen *Cymru'n Un* a'r cynllun gweithredu atodol yn:<br><br>http://wales.gov.uk/about/strategy/1wales/?lang=cy |
| Cynnig am y Gyllideb | Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig a thynnu arian parod hyd at derfyn penodol, o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| Derbyniadau | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth y Cynulliad yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel adnoddau a dderbynnir a chânt eu dangos fel ffigur negyddol. |
| Dibrisiant | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei bod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o TGA Llywodraeth y Cynulliad ond mae'n eitem nad yw'n ymwneud ag arian parod. |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â TGA. Mae GRF, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw. Caiff lefelau GRF eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Adroddiad Cyllideb a Chyn-Cyllideb Trysorlys EM. |

| | |
|---|---|
| Llinell Wariant Cyllideb | O fewn pob MRhG, caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-raglenni a elwir yn Llinellau Gwariant Cyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel Llinellau Gwariant Cyllideb i'w gweld yn http://new.wales.gov.uk/about/finance/assemblybudgets/?lang=cy |
| Maes Rhaglen Wariant | O fewn pob PGG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu. |
| Prif Grŵp Gwariant (PGG) | Caiff TGA Llywodraeth y Cynulliad ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 9 ohonynt: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; Materion Gwledig; Treftadaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| Refeniw | Gwariant cyfredol, er enghraifft, arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul. |
| Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) | Terfyn y gyllideb aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y TGA ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant. |